# Cynllun Blynyddol Drafft 2011/12

Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 7 Ionawr 2010 |
| Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: | 1 Mawrth 2011 |

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 3 |
| 2 | Deall newidiadau yn ymddygiad dinasyddion a defnyddwyr | 7 |
| 3 | Gosod cyfeiriad strategol Ofcom i'r dyfodol | 14 |
| 4 | Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian | 18 |
| 5 | Blaenoriaethau ar gyfer 2011/12 | 22 |
| 6 | Prif feysydd gwaith eraill ar gyfer 2011/12 | 33 |
| 7 | Gwasanaethau i randdeiliaid | 47 |
| 8 | Agwedd Ofcom at reoleiddio a mentrau symleiddio diweddar | 50 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 58 |

Adran 1

# Crynodeb gweithredol

## Mae Cynllun Blynyddol Drafft Ofcom yn rhoi ein rhaglen waith ar gyfer 2011/12

1.1 Mae'r Cynllun Blynyddol Drafft hwn yn rhoi ein dibenion strategol, ein blaenoriaethau arfaethedig a'n rhaglen waith ar gyfer y deuddeg mis rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.

1.2 Rydym yn annog y rheini sydd â diddordeb yng ngwaith Ofcom i ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 1 Mawrth 2011.Bydd eich sylwadau yn helpu i gyfrannu at ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2011/12, a gyhoeddir ar ddechrau ein blwyddyn ariannol nesaf (Ebrill 2011).

## Mae ymddygiad defnyddwyr a thechnoleg newydd yn gwthio newidiadau yn y farchnad cyfathrebiadau

1.3 Prif ddyletswydd Ofcom yw datblygu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a datblygu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Felly, mae anghenion defnyddwyr a dinasyddion wrth galon ein rhaglen waith.

1.4 Bu datblygiadau sylweddol o ran y dechnoleg, y dyfeisiau a'r llwyfannau sydd ar gael i ddefnyddwyr. Er bod nifer o wasanaethau cyfathrebu traddodiadol yn dal yn boblogaidd iawn, mae defnyddwyr hefyd yn manteisio ar gyfryngau a gwasanaethau newydd sydd wedi'u cyfuno.

1.5 Mae'r newidiadau hyn o ran sut mae defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu yn creu ystod o sialensiau yng nghyswllt rheoleiddio. Mae angen mynd i'r afael â phryderon megis cam-werthu. Mae materion newydd hefyd yn dod i'r fei, er enghraifft pan fydd defnyddwyr yn dymuno newid rhwng gwasanaethau, yn enwedig pan fyddant wedi prynu gwasanaethau mewn bwndel.

## Rhaid i ffocws strategol Ofcom hyd at 2015 ymateb i'r datblygiadau hyn

1.6 Rydym wedi ystyried datblygiadau yn y farchnad yn y dyfodol a sut mae defnyddwyr yn newid y ffordd maent yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu. Rydym hefyd wedi adolygu ein swyddogaeth yn y sector ac wedi dod i'r casgliad:

Oherwydd nodweddion ein sectorau, mae dal angen cael polisi cystadleuaeth *ex ante* mewn rhai meysydd i gefnogi buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Bydd yn dal yn bwysig rheoli'r gwaith o ddyrannu a defnyddio asedau cyhoeddus prin yn effeithlon, megis sbectrwm a rhifau.

Mae methiannau'r farchnad yn ein sectorau yn awgrymu bod manteision parhaus yn deillio o bolisi defnyddwyr a fydd wedi'i farnu'n ofalus i gefnogi polisi cystadleuaeth.

Mae'r angen i ddiogelu cynnwys a chefnogaeth y cyhoedd at hynny yn dal yn glir, er gwaethaf y ffaith bod cyfuno yn ei gwneud hi'n anos rheoleiddio cynnwys.

Mae'r llywodraeth yn dal i alw ar Ofcom i ddarparu gwybodaeth dechnegol ac am y diwydiant er mwyn ei chefnogi ar faterion sy'n ymwneud â pholisi. Bydd Ofcom yn canolbwyntio ar feysydd lle mae gennym bwerau clir sy'n ein galluogi i wneud gwahaniaeth go iawn.

1.7 Yn gryno, dyma ein dibenion strategol hyd at 2015:

Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy.

Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon.

Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr.

Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau.

Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd.

1.8 Mae'n bwysig ein bod yn gallu asesu ein cynnydd yn ôl y dibenion strategol hyn i sicrhau ein bod yn eu cyflawni'n effeithiol. Felly, byddwn yn nodi'r canlyniadau clir a chadarnhaol rydym yn ceisio eu sicrhau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr. Byddwn yn monitro ein cynnydd at gyflawni'r canlyniadau hyn, gan adolygu ein hallbwn a datblygiadau yn y farchnad yn gyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd y canlyniadau hyn yn dibynnu ar ddatblygiadau yn y diwydiant ac ymysg defnyddwyr yn ogystal â'n camau gweithredu ein hunain.

## Rhaid i Ofcom hefyd ymateb i sialensiau economaidd ehangach

1.9 Mae *Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant* y llywodraeth yn cynnwys ei chynlluniau i fynd i'r afael ag arian cyhoeddus y DU. Disgwylir i gyrff sector cyhoeddus gyflawni arbedion sylweddol yn eu cyllidebau. Byddwn yn chwarae ein rhan i ddiwallu'r sialens gwariant cyhoeddus.

1.10 Ein targed yw lleihau ein gwariant dros y pedair blynedd nesaf. Bydd y rhan fwyaf o'r arbedion yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyntaf ac erbyn 2014/15 bydd hyn yn golygu arbediad termau real gwerth 28.2% ar gap cyllido blynyddol presennol Ofcom sef £143m.

1.11 Rydym wedi adolygu sut rydym yn rheoleiddio yn effeithiol ac mewn ffordd wedi'i thargedu, ar yr un pryd â cheisio sicrhau gwerth am arian, ac rydym wedi paratoi cynigion manwl ar gyfer lleihau'r gwariant a sicrhau mwy o effeithiolrwydd yn y sefydliad. Mae'r cynigion hyn yn caniatáu i ni reoleiddio'r sector ar ansawdd uchel a chyflawni ein dibenion strategol o fewn y cyfyngiadau ariannol a bennir gan y llywodraeth.

1.12 Mae ein cynigion yn adeiladu ar enw da Ofcom o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian. Am chwe blynedd o'r bron rydym wedi cyflawni gostyngiadau cyllideb tebyg-am-debyg mewn termau real. Rydym hefyd wedi ceisio ysgafnhau'r baich rheoleiddiol pryd bynnag y mae hynny wedi bod yn briodol.

1.13 Mae Ofcom mewn sefyllfa dda i gyflawni'r arbedion angenrheidiol, er bod hynny o sylfaen nad yw'n rhoi cyfleoedd hawdd i leihau ein gwariant. Felly rydym yn cynnig

rhoi'r gorau i rai gweithgareddau a chyflawni ein hamcanion drwy ddefnyddio dulliau gweithredu gwahanol sy'n cynnig enillion effeithlonrwydd o sylwedd.

1.14 Rydym yn bwriadu newid ein strwythur llywodraethu yn sylweddol ynghyd â'n cyrff cynghori ategol i arbed arian a mireinio ein prosesau penderfynu. Fodd bynnag, bydd rhai o'r mesurau hyn yn dibynnu ar newidiadau deddfwriaethol yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus a'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd.

1.15 Gan fod adnoddau yn brin, byddwn yn gwneud dewisiadau a fydd wedi'u harwain gan ein dibenion strategol a'n dyletswydd graidd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Rydym eisoes wedi cyflawni nifer o arbedion cost gan gynnwys rhewi cyflogau am ddwy flynedd, cynnig rhoi'r gorau i groniadau budd pensiwn a fydd wedi'u diffinio yn y dyfodol, a lleihau gwariant ar gontractau cyflenwyr allweddol. Bydd ein gwaith parhaus, megis ein gweithdrefnau trwyddedu ac ymchwilio, yn gweld nifer o newidiadau a fydd yn arwain at ragor o arbedion. Gall y rhain hefyd fod o fudd i randdeiliaid wrthi i'n dull gweithredu symleiddio'r rhyngweithio ag Ofcom.

1.16 Rydym yn ffyddiog y bydd y newidiadau hyn yn gallu sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion ariannol heb danseilio ein dibenion strategol diwygiedig na'n blaenoriaethau craidd. Yn anochel, bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anos o ran blaenoriaethau adnoddau nag a welwyd o'r blaen yn hanes Ofcom.

## Rydym hefyd yn gweithredu ein dyletswyddau newydd neu ddiwygiedig

1.17 Ceir nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth y DU a weithredir neu a gynigir gan y llywodraeth a fydd yn newid ein dyletswyddau. Mae rhai o'r rhain yn ein galluogi i gwtogi ein costau a bydd eraill yn golygu ei bod yn rhaid i ni ysgwyddo cyfrifoldebau newydd. Maent yn cynnwys:

- Gweithredu'r darpariaethau yn Neddf Economi Ddigidol 2010 sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein.
- Gorchmynion dan y Mesur Diwygio Cyrff Cyhoeddus. Drwy'r rhain mae'r llywodraeth wedi cynnig lleihau dyletswyddau Ofcom mewn rhai meysydd, er enghraifft, pa mor aml y cynhelir adolygiadau perchnogaeth cyfryngau ac adolygiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Trosglwyddo rheoleiddio post i Ofcom gan Postcomm, a gynigir yn y Mesur Gwasanaethau Post.

1.18 Ceir gofynion hefyd i Ofcom gydymffurfio â darpariaethau penodol y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygu ein Hamodau Cyffredinol ac Amodau Gwasanaethau Cyffredinol.
- Newidiadau i'r prosesau datrys anghydfodau a gorfodi.
- Diwygiadau i'n prosesau adolygu'r farchnad, er enghraifft y gofyniad i gynnal adolygiadau o'r farchnad mewn rhai marchnadoedd bob tair blynedd.

1.19 Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ar ei Raglen Polisi Sbectrwm Radio, gyda golwg ar gefnogi cynigion sy'n cyd-fynd â'n hamserlen i newid i'r digidol a chlirio'r sbectrwm.

# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2011/2012

1.20 Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar ein dibenion strategol diwygiedig a'n rhaglen o ostyngiadau ac effeithlonrwydd yn y gyllideb. Nodwyd mai ein prif ffocws fydd y materion blaenoriaeth rydym wedi eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac ar gyfer pob blaenoriaeth, rydym wedi nodi'r hyn yr hoffem ei gyflawni.

1.21 Ceir hefyd nifer o feysydd pwysig eraill y mae angen parhau i weithio arnynt dros nifer o flynyddoedd. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau pwysig i ddefnyddwyr ac i'r rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â nifer o feysydd gwaith mawr eraill sy'n rhan bwysig o'n rhaglen waith 2011/12.

1.22 Byddwn hefyd yn dal yn ymateb i faterion newydd, methiannau a fydd yn codi o'r farchnad, materion penodol i'r holl ddefnyddwyr ar draws y DU, a cheisiadau'r llywodraeth ar sail lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.

## Blaenoriaethau arfaethedig Cynllun Blynyddol 2011/12

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd |
|---|---|---|---|---|
| • Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau Teledu drwy Dalu<br>• Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad wrth gyflwyno band eang cyflym iawn | • Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn rhoi dyfarniadau newydd<br>• Cynnal arwerthiant y bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz<br>• Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn Llundain<br>• Datblygu rhaglen waith polisi sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r galw am sbectrwm yn y dyfodol | • Sicrhau bod Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu yn darparu gwybodaeth glir fel y gall defnyddwyr band eang wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn golygu ei bod yn haws i ddefnyddwyr newid o un Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu i un arall | • Rhoi gweithdrefnau safonau darlledu symlach ar waith<br>• Ystyried dulliau rheoleiddio newydd o ran rheoleiddio cynnwys | • Paratoi ar gyfer a gweithredu dyletswyddau rheoleiddio yn y diwydiant Post<br>• Gweithredu darpariaethau Deddf Economi Ddigidol 2010 yn ymwneud â Thorri Hawlfraint Ar-lein<br>• Paratoi'r adroddiad statudol i'r Llywodraeth ar drefniadau trwyddedu ar gyfer sianeli 3 a 5 ar ôl 2014 |

**Ymateb i'r her mewn gwariant cyhoeddus drwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar draws y corff**

**Adran 2**

# Deall newidiadau yn ymddygiad dinasyddion a defnyddwyr

## Mae dull gweithredu Ofcom yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o'r farchnad cyfathrebiadau

2.1 Mae Ofcom yn cynnal ystod o ymchwil i bennu sut mae'r farchnad yn datblygu, a'r goblygiadau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Mae ein strategaeth tymor canolig a'n cynllun blynyddol yn seiliedig ar anghenion dinasyddion a defnyddwyr.

2.2 Mae'r ymchwil hwn yn cynnwys yr adroddiadau ymchwil *Profiad y Defnyddiwr* a *Phrofiad y Defnyddiwr Busnes*[1], yn ogystal ag ymchwil marchnad ehangach a gyhoeddir yn ein *Hadroddiad y Farchnad Gyfathrebu* blynyddol[2]. Rydym hefyd yn monitro llythrennedd oedolion a phlant yn y cyfryngau drwy ein hymchwil Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau, fel rhan o'n dyletswydd Adran 11 i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau.

## Mae defnyddwyr yn dal i ddefnyddio llawer iawn o wasanaethau traddodiadol er bod mwy a mwy yn defnyddio gwasanaethau newydd

2.3 Cyhoeddodd Ofcom Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu ym mis Awst 2010. Mae'n cynnwys ein hymchwil diweddaraf i argaeledd, defnyddio, boddhad a chost gwasanaethau cyfathrebu.

2.4 Canfu'r Adroddiad Marchnad Cyfathrebiadau fod defnyddwyr ar gyfartaledd yn defnyddio dyfeisiau cyfathrebu am 55% o'r oriau maent yn effro. Mae defnyddwyr hefyd yn defnyddio mwy nag un ddyfais ar yr un pryd fwyfwy, gan ffitio 8 awr 47 munud o ddefnyddio dyfeisiau mewn 7 awr.

2.5 Mae llwyfannau cynnwys traddodiadol yn dal i ddominyddu defnydd cyffredinol gyda theledu a radio yn cynrychioli dros hanner yr holl weithgarwch cyfryngau a chyfathrebu. Er gwaethaf twf cyflym, mae teledu dal-i-fyny yn dal i gynrychioli cyfran isel o gyfanswm y teledu a gaiff ei wylio, er bod gwasanaethau 'ar-alw' teledu yn cael eu defnyddio amlaf gan bobl ifanc 16-24 oed.

2.6 Mae bwndelu gwasanaethau'n dod yn fwy cyffredin ac mae oddeutu hanner aelwydydd y DU nawr yn prynu dau wasanaeth cyfathrebu neu fwy gan un cyflenwr, sydd wedi codi o lai na thraean bum mlynedd yn ôl. Mae pris gwasanaethau wedi'u bwndelu yn eu gwneud yn fwy poblogaidd, gyda 70% o bobl yn dweud mai dyma eu prif reswm dros gymryd bwndel.

---

[1] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/consumer-experience-reports/consumer-experience/

[2] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/communications-market-reports/cmr10/

## Mae gwasanaethau cyfathrebiadau ar gael yn eang ar draws llawer o'r DU

2.7 Roedd argaeledd y prif wasanaethau darlledu a ffôn wedi aros yn weddol gyson drwy gydol y flwyddyn:

Mae signal teledu daearol digidol nawr ar gael i 81% o aelwydydd.


Roedd argaeledd dadfwndelu dolen leol wedi codi ychydig i 85%.

Mae 87% o ddefnyddwyr yn gallu cael gafael ar o leiaf un rhwydwaith 3G, ond ar gyfer gwasanaethau 2G a 3G nid oes llawer o gystadleuaeth rhwng pedwar neu fwy o ddarparwyr rhwydwaith.

2.8 Fodd bynnag, mae argaeledd gwasanaethau cyfathrebiadau yn gwahaniaethu llawer ar draws y gwledydd. Mae darpariaeth symudol 2G yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o leiaf 10% yn is nag yn Lloegr. Mae rhwydweithiau symudol 3G yn cyrraedd 91% o'r boblogaeth yn Lloegr, ond dim ond 40% o'r boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon.

2.9 Mae arwerthiannau sbectrwm sydd ar y gweill ar gyfer dechrau 2012 (yn enwedig y bandiau sbectrwm 800MHz a 2.6GHz) yn debyg o yrru buddsoddiad yn y genhedlaeth nesaf o fand eang symudol (gwasanaethau 4G). Mae mwy o wybodaeth am yr arwerthiannau hyn ar gael ar dudalen 22.

### Ffigur 1: Argaeledd gwasanaethau symudol




**Ffynhonnell: Ofcom a GSM Association / Europa Technologies (Ch1 2010)**

2.10 Mae argaeledd band eang cyflym iawn wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn 2010 roedd BT wedi lansio ei gynnyrch BT Infinity a oedd yn cynnig cyflymder o hyd at 40Mbps. Mae BT ar y trywydd i ryddhau band eang cyflym iawn i hyd at 10 miliwn o eiddo erbyn 2012, ac mae wedi dweud ei fod yn bwriadu bod ar gael i 66% o boblogaeth y DU erbyn 2015.


2.11 Yn ystod hydref 2010, cyhoeddodd Virgin Media fod 100,000 o'i gwsmeriaid wedi cofrestru ar gyfer ei wasanaeth 50Mbps wrth iddo baratoi i lansio gwasanaeth 100 Mbps ar ei rwydwaith yn fasnachol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd dim ond 23% o aelwydydd Cymru sy'n gallu cael band eang cebl; llai na hanner y lefel a geir yn Lloegr.

2.12 Yn ogystal â BT a Virgin Media, mae cwmnïau newydd yn buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn mewn ardaloedd penodol a datblygiadau adeiladu newydd. Mae'r llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer band eang cyflym iawn ac ar gyfer yr ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol yn ei dogfen '*Britain's Superfast Broadband Future*'[3].

## Bu cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau, ac eithrio telathrebu llinell sefydlog

2.13 Mae'r cyfartaledd sy'n cael gwasanaethau cyfathrebiadau llinell sefydlog ledled y DU wedi disgyn i 84% o aelwydydd o 87% rhwng 2009 a 2010. Mae hyn yn cymharu â 91% o unigolion sydd â ffôn symudol. Mae cyfran yr aelwydydd sydd dim ond â ffôn symudol bron wedi dyblu dros y pum mlynedd diwethaf; o 8% yn 2005 i 15% yn 2010. Mae'r nifer sydd â theledu digidol hefyd wedi tyfu o ganlyniad i newid i'r digidol.

**Ffigur 2: Defnyddio gwasanaethau cyfathrebu**





*Adroddiad Ymchwil Profiad y Defnyddiwr Ofcom, Rhagfyr 2010*

## Mae'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau'n amrywio ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU

2.14 Fel rhan o'n holl weithgareddau, rydym yn ystyried sut mae ein gwaith a'i ganlyniadau'n berthnasol i wledydd a rhanbarthau'r DU.

[3] http://www.bis.gov.uk/assets/biscore/business-sectors/docs/b/10-1320-britains-superfast-broadband-future

### Ffigur 3: Defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ar draws y gwledydd




*Ffynhonnell: Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu Ofcom, Ch1 2010*

2.15 Mae defnyddio gwasanaethau'n gyffredinol yn amrywio yn ôl gwlad. Yn Chwarter 1 2010:

Roedd defnyddio llinellau sefydlog ar ei uchaf yn Lloegr ar 86%; 81% yng Ngogledd Iwerddon a 79% yng Nghymru a'r Alban.

Roedd defnyddio band eang yn y DU wedi aros ar yr un lefel sef 71%. Roedd ar ei uchaf yn Lloegr sef 73%, ychydig yn uwch na Gogledd Iwerddon, ond roedd ffigur Cymru a'r Alban yn llai na 65%.

Mae defnyddio ffonau symudol yn gymharol gyson ar draws y DU. Roedd cyfartaledd y DU yn 89% yn 2010, gyda'r lefel isaf yn yr Alban sef 85%.

2.16 Mae ein rhaglen waith a'n hymchwil defnyddwyr parhaus yn ystyried anghenion a phrofiadau dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU ac mae ein Pwyllgorau Cynghori hefyd yn ein cynghori ynghylch materion sy'n ymwneud â dinasyddion a defnyddwyr.

## Ceir lefelau boddhad uchel ymysg defnyddwyr ond mae sialensiau yn dal yn bodoli o ran newid rhwng gwasanaethau

2.17 Roedd ymchwil ein hadroddiad Profiad y Defnyddiwr[4] yn dangos bod lefelau cyffredinol boddhad gyda gwasanaethau cyfathrebiadau wedi aros yn uchel (mae 9 defnyddiwr o bob 10 yn 'weddol' fodlon neu'n fodlon 'iawn') ond roedd hefyd wedi canfod meysydd lle mae angen rhagor o sylw megis gallu defnyddwyr i newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau.


2.18 Er 2008 rydym wedi gweld llai o ddefnyddwyr yn newid yn y marchnadoedd llinell sefydlog, symudol a band eang. Efallai mai'r twf mewn contractau tymor hwy yw un

[4] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/consumer-experience-reports/consumer-experience/

o'r rhesymau am hyn gan fod contractau 24 mis yn y farchnad symudol yn dod yn fwyfwy cyffredin, ac yn cyfrif am 63% o'r holl gontractau ffonau symudol.

2.19 Efallai fod bwndelu yn ffactor arall, gan fod ein hymchwil wedi dangos cyfraddau newid isel ymysg cwsmeriaid sy'n cymryd bwndel o wasanaethau. Efallai fod hyn oherwydd cyfuniad o ffactorau gan gynnwys lefelau boddhad uchel, cyfnodau dan glo yn y contract, a'r anhawster o lywio drwy fwy nag un proses newid.

**Ffigur 4: Gweithgarwch newid yn ystod y 12 mis blaenorol**




*Ffynhonnell: Adroddiad Profiad y Defnyddiwr Ofcom, Rhagfyr 2010*

2.20 Un o'n blaenoriaethau yn 2011/12 yw datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr newid rhwng darparwyr gwasanaethau cyfathrebu.

## Mae mwyafrif y defnyddwyr busnes yn fodlon ar eu profiadau cyffredinol, ond ceir materion y mae dal angen mynd i'r afael â nhw

2.21 Roedd ein hadroddiad *Profiad y Defnyddiwr Busnes*[5] yn datgelu bod tri chwarter o ddefnyddwyr busnes yn datgan bod pwysigrwydd gwasanaethau symudol, rhyngrwyd a llinell sefydlog yn 8 allan o 10 o leiaf. Mae lleiafrif o ddefnyddwyr busnes yn prynu gwasanaethau preswyl i ddiwallu eu hanghenion busnes (46% yn y farchnad symudol, 43% ar-lein a 37% mewn llinell sefydlog). Mae'r patrwm hwn yn fwy amlwg o lawer ymysg busnesau llai. Ar gyfer busnesau gwledig, a'r rheini yn y gwledydd, roedd y gwasanaeth a oedd ar gael yn achosi mwy o bryder na busnesau mewn ardaloedd trefol, neu'r rheini yn Lloegr.

2.22 Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr busnes yn fodlon â'u profiad cyffredinol. Mae eu pryderon mwyaf yn ymwneud â darpariaeth a chyflymder gwasanaethau band eang a dibynadwyedd a darpariaeth rhwydweithiau symudol.

## Mae rhai cwynion penodol yn dal i fodoli, gan gynnwys galwadau mud a delio â chwynion


2.23 Drwy gyfuno ein hymchwil marchnad â nifer y cwynion a wnaed, roeddem yn gallu dod o hyd i feysydd sy'n achosi niwed parhaus i ddefnyddwyr.

---

[5] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/consumer-experience-reports/consumer-experience/

**Ffigur 5: Cwynion defnyddwyr mewn telathrebu**

**Gorolwg data misol OAT/OCS wrth gategori allweddol**




***Ffynhonnell: Ofcom***

2.24 Mae Ffigur 5 uchod yn dangos y bu cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Mae cwynion ynghylch cam-werthu gwasanaethau llinell sefydlog wedi disgyn 13%. Mae hyn yn dilyn cyflwyno rheoleiddio sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaeth yn darparu gwybodaeth glir a chywir heb gamarwain y defnyddiwr, a pheidio â chymryd rhan mewn ymddygiad ymosodol na slamio (lle caiff y gwasanaeth ei newid heb ganiatâd y defnyddiwr).

- Mae cwynion ynghylch cyflymder band eang wedi disgyn ychydig, 3%. Roedd y rhan fwyaf o gwynion yn ymwneud â chyflymder neu gysondeb gwael. Roedd nifer o'r rheini a oedd yn cwyno hefyd yn teimlo y cam-werthwyd gwasanaethau band eang iddynt, gan fod y cyflymder roeddent yn ei gael yn is na'r cyflymder a gafodd ei hysbysebu. Un o flaenoriaethau parhaus Ofcom ar gyfer 2011/12 yw sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr band eang allu gwneud dewisiadau gwybodus.

2.25 Mae datrys problemau eraill wedi bod yn fwy dyrys:

- Roedd cwynion ynghylch galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael wedi codi 23% yn ystod y deuddeg mis hyd at fis Hydref 2010. Fodd bynnag, mae ymchwil Ofcom yn datgan bod nifer y galwadau mud yn disgyn[6]. Bu dau ddatblygiad polisi o bwys yn y cyfnod hwn ac rydym yn meddwl bod hyn wedi codi ymwybyddiaeth defnyddwyr ac wedi cyfrannu at y cynnydd mewn cwynion i

6 http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/consumer-experience/tce-10/consumer-esperience-10.pdf (ffigur 162)

Ofcom – cyhoeddi gofynion polisi newydd[7] am alwadau mud parhaus (dau neu fwy o alwadau mud y diwrnod gan yr un cwmni) a chynnydd yn y gosb uchaf sydd ar gael i Ofcom i fynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael[8]. Rydym yn credu y bydd ein gofyniad newydd nad yw defnyddwyr yn cael galwadau mud parhaus (a ddaw i rym ar 1 Chwefror 2011) a'n gorfodi parhaus a gefnogir gan y cosbau uwch, yn arwain at ostyngiad pellach yn nifer y galwadau mud.

- Mae pryderon ynghylch y ffordd mae darparwyr gwasanaeth yn delio â chwynion wedi codi 25%. Mewn ymateb byddwn yn rhyddhau set o safonau sylfaenol er mwyn delio â chwynion yn gynnar yn 2011. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r cyrff datrys anghydfodau cymeradwy sydd wedi cael eu sefydlu, Otelo a CISAS.

## Mae ymchwil defnyddwyr Ofcom yn sail i'n dibenion strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer 2011/12

2.26 Mae buddiannau defnyddwyr a dinasyddion wrth galon dyletswyddau Ofcom. Byddwn yn parhau i ymchwilio i anghenion a phrofiadau dinasyddion a defnyddwyr er mwyn i ni allu adnabod meysydd o niwed a thargedu unrhyw ymyriadau fel sy'n briodol.

2.27 Er bod tystiolaeth bod defnyddwyr preswyl a busnes yn fodlon ar eu gwasanaethau cyfathrebu, ceir meysydd penodol y bydd arnom angen ymateb iddynt. Wrth bennu ein blaenoriaethau ar gyfer 2011/12 rydym wedi adlewyrchu'r materion hyn a byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ddod o hyd i feysydd newydd wrth iddynt ddod i'r fei.

7 http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/silent-calls/

8 http://nds.coi.gov.uk/content/Detail.aspx?ReleaseID=415608&NewsAreaID=2

## Adran 3

# Gosod cyfeiriad strategol Ofcom i'r dyfodol

3.1 Mae hwn yn gyfnod o newid economaidd, technegol a gwleidyddol yn y sector cyfathrebiadau. Rhaid i Ofcom ymateb i hyn i sicrhau bod ein dull gweithredu o ran rheoleiddio yn parhau i ddiwallu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

3.2 I wneud hyn, rydym wedi adolygu ein cyfeiriad strategol tymor canolig rhwng nawr a 2015. Rydym wedi ystyried ein swyddogaeth a'n ffocws fel rheoleiddiwr sy'n benodol i'r sector ac i ba raddau mae ein dull gweithredu'n briodol i ddiwallu'r sialensiau sy'n wynebu ein sector. Mae canlyniad y gwaith hwn wedi arwain ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau.

3.3 Rydym wedi nodi pum maes sydd wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud:

Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy.

Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon.

Helpu i farchnadoedd cyfathrebiadau weithio i ddefnyddwyr.

Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ar safonau.

Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd.

3.4 Ar gyfer pob un o'r dibenion hyn rydym wedi asesu swyddogaeth Ofcom fel rheoleiddiwr sector ac wedi adolygu ein dull gweithredu ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau.

### Mae dal angen polisi cystadleuaeth *ex ante* i gefnogi buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

3.5 Mae cyfuno technolegau newydd a chyfuno yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio yn galluogi cystadleuaeth ar draws llwyfannau ac ar draws gwasanaethau. Gallai hyn leihau pŵer yn y farchnad, a allai wedyn ganiatáu ar gyfer mwy o ddibyniaeth ar bwerau cystadleuaeth *ex post* yn hytrach na rheoliadau sector penodol *ex ante*.

3.6 Fodd bynnag, mae'r newidiadau hyn yn eistedd ochr yn ochr â phwysau newydd a all atgyfnerthu tagfeydd economaidd sydd eisoes yn bodoli, neu greu rhai newydd. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau parhaus ar gyfer cyfnerthu'r diwydiant a datblygiadau a allai greu rhwystrau newydd i atal cwmnïau rhag ymuno, mewn meysydd megis newid a bwndelu gwasanaethau.

3.7 O ganlyniad, rydym yn credu bod achos o hyd dros fframwaith rheoleiddio *ex ante* i ymateb i ddatblygiadau yn y sectorau a reoleiddir gennym. Bydd angen cydbwyso hyn drwy ddiweddaru ein dealltwriaeth o'r farchnad yn gyson er mwyn ein galluogi i adnabod cyfleoedd i ddadreoleiddio a symud at rai dulliau gweithredu *ex post* pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

## Mae'r farchnad ei hun yn annhebyg o sicrhau dyrannu a defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon megis sbectrwm a rhifau ym mhob achos

3.8 Rydym yn dal i ffafrio dull gweithredu sy'n seiliedig ar y farchnad ar gyfer dyrannu a defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon, megis sbectrwm ac ystodau rhifau. Ond, mae natur brin yr asedau hyn yn mynnu ein bod yn sicrhau eu gwerth mwyaf i gymdeithas. Bydd swyddogaeth hanfodol o hyd ar gyfer cynllunio tymor hwy a rheolaeth uniongyrchol i gyflawni hyn. Er enghraifft, gall cytgordio sbectrwm yn rhyngwladol ychwanegu'n sylweddol at ei werth cymdeithasol cyffredinol, ar yr un pryd â chaniatáu rhyddhau a phrynu a gwerthu sbectrwm.

## Mae methiannau'r farchnad yn ein sector yn awgrymu'r angen parhaus am bolisi defnyddwyr, yn ogystal â pholisi cystadleuaeth

3.9 Wrth bennu sut rydym yn delio â chefnogaeth ac amddiffyniad i ddefnyddwyr, rydym wedi ystyried i ba raddau gellir gwasanaethu buddiannau defnyddwyr drwy gyfraith defnyddwyr lorweddol yn unig. Rydym wedi asesu a yw materion sy'n ymwneud â defnyddwyr yn deillio o nifer o fethiannau posibl yn y farchnad ar yr ochr galw o bosibl, ymysg pethau eraill:

Cymhelliannau cyfyngedig ar gyfer prosesau newid.

Cynnyrch a phrisiau cymhleth.

Niwed o brosesau technegol megis galwadau mud.

Rhwystrau uchel i ddefnyddwyr sy'n ceisio gadael eu darparwyr presennol.

3.10 Mae cyflenwi canlyniadau da i ddefnyddwyr yn galw am gorff amddiffyn defnyddwyr sy'n gallu defnyddio llawer o offer llorweddol ac sy'n benodol i'r sector, yn ogystal â chyfraith defnyddwyr gyffredinol. Rydym yn credu felly bod amddiffyn defnyddwyr yn dal yn galw am ymateb rheoleiddiol sy'n benodol i'r sector.

## Nid yw'r angen na'r gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer rheoleiddio cynnwys darlledu wedi disgyn, ond mae cyfuno cyfryngau yn peri cwestiynau tymor hwy

3.11 Mae'n amlwg o'n hymchwil[9] bod dinasyddion a defnyddwyr yn gwerthfawrogi amcanion rheoleiddio cynnwys darlledu. Mae amddiffyn cynulleidfaoedd yn effeithiol yn gofyn am reoleiddio i roi sylw i feysydd a allai achosi niwed.

3.12 Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn cynlluniau blynyddol blaenorol, bydd angen diwygio rheoleiddio cynnwys yn ehangach er mwyn ymateb i ddatblygiadau technegol yn y tymor hwy. Ni fydd hon yn broses gyflym; wrth i fathau o gynnwys a ffynonellau cynnwys newydd ddod i'r fei, mae llwyfannau traddodiadol ac arferion gwylio traddodiadol yn dal yn bwysig. Fodd bynnag, dros amser, mae'n debyg y bydd newidiadau mewn deinameg marchnadoedd yn peri dwy sialens fawr:

[9] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/tv-research/offensive-lang.pdf and

http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/radio-research/language.pdf

Ffocws – a yw'r amcanion rheoleiddio cynnwys yn dal yn rhai cywir?

Cwmpas – pa gynnwys neu lwyfannau y mae'n angenrheidiol neu'n bosibl eu rheoleiddio?

3.13 Bydd arnom angen trin a thrafod y cwestiynau hyn a, phan fo'n briodol, cyfrannu at y ddadl ehangach ar y materion hyn.

## Bydd Ofcom yn parhau i gyfrannu at amcanion polisi cyhoeddus ehangach, ond byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf

3.14 Yn y gorffennol, mae Ofcom wedi arwain neu gyfrannu at nifer o faterion polisi cyhoeddus ehangach ar gais y Senedd a'r llywodraeth. Rydym yn disgwyl parhau i ddarparu ein harbenigedd sectoraidd a thechnegol pan fydd y Senedd neu'r llywodraeth yn dod o hyd i swyddogaeth wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Ofcom i sicrhau manteision er budd ehangach y cyhoedd, megis ein gwaith ar y gwasanaeth cyffredinol band eang a lluosogrwydd cyfryngau.

3.15 Fodd bynnag, ac ystyried ein hadnoddau cyfyngedig, rhaid i ni fabwysiadu dull gweithredu cadarn i flaenoriaethu ein gwaith a chanolbwyntio ein hymdrechion lle gallwn wneud newid o fudd.

3.16 Yn y dyfodol, bydd blaenoriaethu ein gwaith yn seiliedig ar yr asesiadau canlynol:

i) A yw'r mater yn flaenoriaeth i Ofcom? A yw wedi'i ddiffinio yn ein dyletswyddau statudol?

ii) A yw'r mater yn flaenoriaeth i'r llywodraeth? A yw'r llywodraeth wedi gofyn am ein cymorth gyda blaenoriaeth polisi penodol?

iii) A yw'n faes y gall Ofcom wneud newid cadarnhaol ynddo? Allwn ni wneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr neu i ddinasyddion drwy ddefnyddio ein pwerau statudol neu ein pwerau meddal, megis arbenigedd technegol a dylanwad anuniongyrchol?

## Byddwn yn ceisio cyflawni canlyniadau cadarnhaol drwy ganolbwyntio ar y dibenion strategol canlynol

3.17 Ar ôl adolygu ein meysydd gwaith, rydym wedi diffinio pum diben strategol sy'n arwain ein ffordd o gyflawni ein dyletswyddau. Rydym hefyd wedi nodi canlyniadau lefel uchel i ddangos sut beth fyddai llwyddo i gyflawni ein dibenion strategol.

## Dibenion strategol Ofcom

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy**

**Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon**

**Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr**

**Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau**

**Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd**

*Beth fyddai llwyddiant yn ei olygu?*

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy:**

- Dewis effeithiol mewn llwyfannau a gwasanaethau
- Prisiau effeithlon
- Cynigion newydd
- Safon uwch o wasanaeth
- Buddsoddiad masnachol yng ngallu'r rhwydwaith

**Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon:**

- Mwy o sbectrwm ar gael ar gyfer gwasanaethau newydd
- Lansio gwasanaethau di-wifr newydd (a chystadleuaeth yn y maes hwnnw)
- Marchnad eilaidd effeithiol ar gyfer sbectrwm
- Dyraniad effeithiol o ystodau rhifau

**Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr:**

- Lefelau effeithlon o newid gwasanaeth
- Llawer o ymgysylltiad â defnyddwyr, boddhad ac ymddiriedaeth yn y gwasanaethau
- Monitro tueddiadau a meysydd newydd o niwed i ddefnyddwyr

**Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau:**

- Llawer o foddhad ac ymddiriedaeth gan ddinasyddion a defnyddwyr mewn gwasanaethau sy'n darparu cynnwys i gynulleidfaoedd
- Llawer o foddhad ymysg y gynulleidfa gyda rheoleiddio ym maes hysbysebu, darlledu, a fideo ar-alw

**Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd:**

- Mwy o wasanaethau digidol ar gael a mwy yn eu defnyddio
- Dewis ac argaeledd eang o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd
- Diogelu lluosogrwydd yn y cyfryngau yn unol â statud

**Adran 4**

# Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

## Mae Ofcom, yn yr un modd â phob corff cyhoeddus, yn chwarae ei ran i ddiwallu'r sialens gwariant cyhoeddus

4.1 Yn wyneb y diffyg mewn cyllid cyhoeddus, mae llywodraeth y glymblaid wedi datgelu ei chynlluniau yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Hydref 2010. Ceir arbediad sylweddol drwy leihau cyllidebau cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom.

4.2 Rydym yn ymateb i sialens y llywodraeth drwy adolygu sut rydym yn rheoleiddio'n effeithiol ac mewn ffordd wedi'i thargedu, ar yr un pryd â sicrhau gwerth am arian. Rydym wedi ystyried y ffordd orau o gyflawni ein nodau o fewn y cyfyngiadau ariannol sydd wedi'u pennu gan y llywodraeth.

4.3 Ar ben y sialens economaidd, rydym hefyd yn ymateb i newidiadau yn neddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'r llywodraeth wedi gofyn i ni ysgwyddo dyletswyddau newydd mewn perthynas â thorri hawlfraint ar-lein a (yn amodol ar ddeddfwriaeth) chyfrifoldeb dros y sector post. Efallai y bydd gofyn i ni hefyd newid ein dyletswyddau mewn meysydd eraill fel y pennir yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus (Diwygio). Bydd y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd hefyd yn gwneud nifer o newidiadau sylweddol ar ôl iddo gael ei drosi ym mis Mai 2011.

## Rydym yn bwriadu cwtogi ein gwariant yn sylweddol

4.4 Mae Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y llywodraeth wedi cyflwyno set newydd o sialensiau i Ofcom gyflawni rhagor o ostyngiadau sylweddol yn ei gyllideb. Ein targed yw lleihau gwariant dros y pedair blynedd nesaf a bydd y rhan fwyaf o'r arbedion yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyntaf. Erbyn 2014/15 bydd hyn yn cyflawni arbediad termau real gwerth 28.2% ar gap cyllido presennol Ofcom sef £143m.

4.5 Er mwyn diwallu'r sialens honno rydym wedi paratoi cynigion manwl ar gyfer lleihau gwariant ar yr un pryd â chyflawni ffocws strategol gwell ac effeithiolrwydd sefydliadol.

4.6 Mae ein cynigion yn adeiladu ar enw da Ofcom o:

Leihau ein cyllideb – Mae Ofcom eisoes wedi cyflawni chwe blynedd o'r bron o ostyngiadau tebyg-am-debyg termau real yn ei gyllideb.

Diogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU drwy gystadleuaeth effeithiol, buddsoddiad a drwy ddiogelu cynulleidfaoedd a defnyddwyr.

Ysgafnhau ein baich rheoleiddiol pryd bynnag y bo hynny'n briodol.

4.7 Mae Ofcom eisoes yn cyflawni ei ddyletswyddau gyda llai o adnoddau sydd 27% yn is, mewn termau real, ar sail tebyg-am-debyg, na'i ragflaenwyr.

4.8 Er mwyn diwallu'r gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb, rydym wedi adolygu sut rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau blynyddol a'n dyletswyddau statudol. Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

Gwella effeithlonrwydd ymhellach wrth gyflawni prosiectau rheoleiddio a gweithredol drwy flaenoriaethu a llywodraethu gwell.

Adolygu'r holl weithgareddau rhaglenni i sicrhau mwy o effeithlonrwydd drwy brosesau a gweithdrefnau symlach.

Adolygu gwariant gyda chyflenwyr allanol a chostau swyddogaethau cefnogi Ofcom.

Adolygu meysydd gwaith penodol a'u halinio â'r dibenion strategol.

4.9 Daw rhai o'n harbedion o fentrau effeithlonrwydd a ddechreuwyd cyn ein hadolygiad o wariant. Bydd y mentrau hyn a oedd eisoes yn bodoli yn darparu arbedion yn 2010/11 ac maent yn cynnwys:

Rhewi cyflog ar draws y sefydliad, yr ail flwyddyn o'r bron y cafodd cyflogau eu rhewi.

Cynnig rhoi'r gorau i groniadau yn y dyfodol i ddau hen gynllun buddion wedi'u diffinio Ofcom.

Ail-dendro rheoli cyfleusterau a ddarperir ar gontractau allanol.

Penodi rheolwr gwasanaethau a reolir ar gyfer staff dros dro ac asiantaeth.

Cwblhau trosglwyddo gwasanaethau TGCh a roddir ar gontract allanol i bartner a benodir o'r newydd ar ôl proses caffael OJEU.

Rhoi dau gytundeb fframwaith ar waith i symleiddio'r broses caffael OJEU ar gyfer cytundebau galw i ffwrdd ar yr un pryd â chydymffurfio'n gaeth â rheoliadau caffael.

4.10 Rydym hefyd wedi dod o hyd i nifer o fentrau eraill a fydd yn gwella'r ffordd rydym yn gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cyflwyno strwythur llywodraethu symlach gan gynnwys lleihau o 13 i naw corff, panel a phwyllgor ac aelodaeth a rennir rhwng 4 o'r rhain (yn amodol ar y Mesur Cyrff Cyhoeddus a chaniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol).

Yn dilyn cytundeb y Llywodraeth, rhoi'r gorau i'n cyfranogiad mewn gweithgareddau penodol megis cyfranogiad digidol.

Adolygu a lleihau ein gweithgarwch ymchwil marchnad.

Ail-ganolbwyntio ein hastudiaethau technegol ar sylfaen adnoddau is.

Adolygu'r ffordd rydym yn rhedeg prosiectau i wella effeithlonrwydd ymhellach o ran amser, adnoddau a chostau.

Rhesymoli gweithgareddau rhaglenni i leihau amser a chostau.

Lleihau ein costau swyddfa ymhellach (yng ngoleuni llai o staff).

Adolygiad llawn o brif gyflenwyr Ofcom gan arwain at ail-negodi.

Rhesymoli'r stadau gweinydd TGCh i leihau ein costau a'n hôl troed carbon.

4.11 Bydd Ofcom hefyd yn lleihau nifer ei staff. Bydd y strwythur sefydliadol newydd ar waith ar gyfer 2011/12. O ganlyniad i'r cynigion hyn, a fydd yn destun ymgynghoriad, bydd oddeutu 170 o swyddi'n cael eu dileu.

4.12 Fel rhan o'r gostyngiad arfaethedig yng nghyrff llywodraethu Ofcom, bydd y Panel Cyfathrebiadau Defnyddwyr a'r Pwyllgor Cynghori ar Ddefnyddwyr Hŷn a Defnyddwyr Anabl yn dod i ben fel cyrff ar wahân. Rydym hefyd yn cynnig diddymu'r Pwyllgor Cynghori ar gyfer Lloegr.

4.13 O ganlyniad i'r cynigion hyn, byddai paneli cynghori Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynrychioli'r holl ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl. Bydd hyn yn caniatáu i ni gasglu gwybodaeth am faterion yn y gwledydd a'r rhanbarthau a gwybodaeth am faterion penodol defnyddwyr hŷn neu ddefnyddwyr anabl.

4.14 Bydd y newidiadau hyn yn ein galluogi i gyflawni rhagor o arbedion yn ogystal â symleiddio ein proses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, byddant yn dibynnu ar newid deddfwriaethol a gyflawnir wrth i'r Mesur Cyrff Cyhoeddus ddod i rym.

## Byddwn yn cyflawni gwaith o ansawdd uchel a gwerth am arian

4.15 Rydym wedi adolygu ein gwaith rhaglenni a phrosiectau yn ogystal â'n rhaglenni ymchwil i weld sut gall dull gweithredu gwahanol ganiatáu i ni arbed mwy o arian. Lle mae ein hadnoddau yn brin, byddwn yn gwneud dewisiadau a arweinir gan ein strategaeth a'n dyletswydd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

4.16 Pan fo'n briodol, byddwn yn ymgynghori'n allanol ynghylch y newidiadau a gynigir. Er enghraifft, rydym yn ymgynghori ynghylch gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri trwyddedau darlledu a thegwch a chwynion ynghylch preifatrwydd, yn ogystal ag ystyried sancsiynau statudol. Bydd ein gweithdrefnau diwygiedig yn ein galluogi i gwblhau ein hymchwiliadau yn gynt a darparu gwell gwerth i'n rhanddeiliaid.

4.17 Er nad ydynt heb risg, rydym yn credu y bydd y newidiadau hyn yn ein strwythur a'r dull gweithredu yn ein galluogi i gyflawni canlyniadau rheoleiddio o ansawdd uchel sy'n diwallu ein dibenion strategol a blaenoriaethau'r cynllun blynyddol o fewn ein cyllideb newydd.

## Rydym hefyd yn ysgwyddo dyletswyddau ac yn gweithredu newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli

4.18 Bydd nifer o newidiadau presennol neu arfaethedig i ddeddfwriaeth yn y DU yn newid ein cyfrifoldebau yn y dyfodol.

4.19 Rydym eisoes yn gweithredu darpariaethau Deddf Economi Ddigidol 2010, sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein. Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer newidiadau eraill i'n cyfrifoldebau o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd yn y flwyddyn nesaf:

Dan y Mesur Cyrff Cyhoeddus, mae'r llywodraeth wedi cynnig gwneud Gorchymyn i ddiwygio neu i ddileu dyletswyddau Ofcom mewn meysydd megis pa mor aml cynhelir adolygiadau perchnogaeth cyfryngau ac adolygiadau darlledu

gwasanaeth cyhoeddus. Fel y nodwyd yn gynharach, gall y Mesur Cyrff Cyhoeddus hefyd ein galluogi i symleiddio ein trefn lywodraethu, gan ganiatáu i ni symleiddio ein strwythur gydag arbedion cyfatebol. Os daw'r Mesur yn gyfraith, caiff y newidiadau hyn eu gweithredu drwy'r ddeddfwriaeth eilaidd a ddaw i rym yn ystod 2011/12.

Yn y Mesur Gwasanaethau Post mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i drosglwyddo rheoleiddio'r sector post o Postcomm i Ofcom. Rydym yn gweithio i sicrhau y caiff integreiddio â Postcomm ei reoli'n effeithiol, ar yr un pryd â darparu sicrwydd rheoleiddio ar gyfer defnyddwyr a'r diwydiant.

4.20 Bydd Ofcom hefyd yn gweithredu'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd. Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau newydd gau ei hymgynghoriad ar drosi'r Fframwaith a byddwn yn gweithio â hi i roi'r newidiadau a fydd yn deillio o hynny ar waith. Yn benodol, rhaid i Ofcom ddiwygio nifer o Amodau Cyffredinol erbyn mis Mai 2011. Pan fydd y Fframwaith diwygiedig yn cynnwys pwerau caniataol newydd, byddwn yn adolygu'r angen i roi pwerau o'r fath ar waith. Efallai y bydd hyn yn arwain at ragor o ymgynghori yn 2011/12.

## Mae'r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2011/12 yn ymgorffori'r newidiadau hyn

4.21 Wrth ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau rydym wedi ceisio adlewyrchu datblygiadau ymysg defnyddwyr a'r farchnad yn ogystal ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol tebygol. Mae ein rhaglen waith yn adlewyrchu lle rydym yn disgwyl ysgwyddo cyfrifoldebau sylweddol newydd, ar yr un pryd â sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i'r dyletswyddau rydym eisoes yn eu cyflawni.

## Adran 5

# Blaenoriaethau ar gyfer 2011/12

## Mae ein blaenoriaethau yn deillio o'n dibenion strategol ac yn adlewyrchu'r amgylchedd economaidd a deddfwriaethol a defnyddwyr

5.1 Er mwyn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad, cyfyngiadau economaidd a newidiadau i ddeddfwriaeth, mae ein blaenoriaethau yn cydbwyso gwaith newydd ag ymrwymiadau parhaus pwysig. Maent wedi cael eu halinio â'n pum diben strategol:

Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy.

Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon.

Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr.

Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau.

Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd.

## Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

5.2 Rydym yn credu bod achos dros fframwaith rheoleiddio *ex ante* parhaus i ymateb i gyflymder a deinameg ein sectorau a reoleiddir. Rydym wedi nodi dwy flaenoriaeth benodol ar gyfer 2011/12, sy'n ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad ac a fwriedir i gyflawni manteision sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

### Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu drwy dalu

5.3 Mae'r sector teledu drwy dalu wedi cyflawni manteision sylweddol, gyda dros 12 miliwn o ddefnyddwyr nawr yn talu am ddewis ehangach o gynnwys, a gyda mwy o reolaeth nag a welwyd yn y gorffennol gyda theledu am ddim ar yr awyr.

5.4 Yn dilyn tri ymgynghoriad ynghylch y farchnad teledu drwy dalu, daethom i'r farn bod ymddygiad BSkyB yn cyfyngu ar ddewis defnyddwyr ac ar ddatblygu arloesedd yng nghyswllt llwyfannau teledu. Roeddem wedi cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad ym mis Mawrth 2010, a oedd yn mynnu y dylid cynnig Sky Sports 1 a 2 i adwerthwyr ar lwyfannau ar wahân i Sky, am brisiau a bennir gan Ofcom.

5.5 Byddwn yn parhau i fonitro faint o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau newydd a ddeilliodd o'r penderfyniad hwn, ac yn ymchwilio i unrhyw gwynion ynghylch ei weithredu. Yn y cyfamser, byddwn yn amddiffyn ein penderfyniad yn erbyn apeliadau a gyflwynwyd yn ei erbyn.

5.6 Roeddem hefyd wedi gwneud cyfeiriad ymchwiliad marchnad i'r Comisiwn Cystadleuaeth dan Ddeddf Menter 2002 ynghylch y sector tanysgrifiadau ffilmiau, yn enwedig tanysgrifiad gwasanaethau fideo ar-alw. Mae'r Comisiwn Cystadleuaeth nawr yn cynnal yr ymchwiliad hwn, a byddwn yn cyfrannu yn ôl y galw.

### Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn

5.7 Roedd Ofcom wedi cyhoeddi Datganiad ym mis Hydref 2010 yn rhoi casgliadau'r adolygiad marchnad *Mynediad Lleol Cyfanwerthu*. Roedd yr adolygiad hwn yn mynnu bod BT yn cynnig rhith fynediad lleol heb ei fwndelu (VULA) i'w seilwaith ffibr cenhedlaeth nesaf ac yn agor mynediad i bibelli a pholion yn ei rwydwaith mynediad lleol. Mae'r rhain yn rhwymedigaethau newydd a fydd â swyddogaeth bwysig o ran hwyluso cystadleuaeth a buddsoddiad mewn gwasanaethau band eang cyflym iawn.

5.8 Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod yr atebion hyn yn effeithiol. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda BT, Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu (OTA) a rhanddeiliaid yn y diwydiant, i sicrhau bod cynnyrch cyfanwerthu BT yn cael eu pennu'n briodol a datrys unrhyw faterion sy'n ymwneud â dyluniad y cynnyrch, y pris a'r cyflenwi.

5.9 Bydd y gwaith hwn yn cefnogi cyflwyno cyfleusterau mynediad cenhedlaeth nesaf gan BT a darparwyr eraill, a mwy o argaeledd a chystadleuaeth yn y farchnad adwerthu ar gyfer gwasanaethau band eang cyflym iawn.

5.10 Dros 2011-12, rydym hefyd yn disgwyl cynhyrchu rhagor o arweiniad ar gyfer y diwydiant ynghylch yr amgylchedd rheoleiddio ar gyfer buddsoddi yn y seilwaith mynediad cenhedlaeth nesaf. Bydd hyn yn ystyried sut gellir gweithredu'r darpariaethau newydd ar rannu seilwaith yn y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd, a darparu cefnogaeth yn ôl y gofyn ar gyfer mentrau band eang y llywodraeth.

## Diben Strategol 2: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

5.11 Mae Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod y sbectrwm electromagnetig yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Ac ystyried y gwerth posibl i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi'u galluogi gan adnoddau sbectrwm, mae rheoli sbectrwm yn gryn gyfrifoldeb. Mae asesu sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio ac, os yw'n briodol cymryd camau i alluogi newid ei ddefnydd, yn bwysig i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

### Paratoi ar gyfer arwerthiannau bandiau sbectrwm 600 MHz, 800 MHz a 2.6 GHz

5.12 Mae newid gwasanaethau teledu i'r digidol yn rhoi'r cyfle i ryddhau llawer o sbectrwm dan 1 GHz (y difidend digidol) mewn bandiau amledd sy'n arbennig o addas ar gyfer rhaglenni band eang di-wifr a darlledu. Mae'r difidend digidol yn cynnwys band is yn 550-606 MHz (band 600 MHz) a band uwch yr ydym ar hyn o bryd yn ei alinio â'r sbectrwm a gafodd ei ryddhau mewn gwledydd Ewropeaidd eraill drwy glirio'r amleddau ychwanegol. Bydd hyn yn creu bloc 72 MHz o sbectrwm a fydd wedi'i harmoneiddio ar draws Ewrop ar 790-862 MHz (y band 800 MHz).

5.13 Yn ogystal â'r difidend digidol, mae 190 MHz o sbectrwm ansawdd uchel yn y band 2.6 GHz (2500-2690 MHz) yn segur i raddau helaeth. Mae nodweddion y sbectrwm hwn yn ei wneud yn hynod addas ar gyfer datblygu rhwydweithiau symudol, gan gynnwys rhwydweithiau sy'n defnyddio technolegau megis LTE a WiMAX.

5.14 Y bandiau sbectrwm allweddol rydym yn gobeithio eu gwerthu yn ystod y flwyddyn 2011/12 yw'r bandiau 800 MHz, 2.6 GHz, a'r band 600 MHz, os bydd adnoddau'n caniatáu.

5.15 Ein nod yw dechrau'r arwerthiant ar gyfer dyfarnu'r trwyddedau i ddefnyddio'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz erbyn diwedd 2011/12 neu ddechrau 2012/13. Er mwyn cyflawni hyn, yn gyntaf bydd yn rhaid i ni:

ymgynghori ynghylch ein hasesiad o gystadleuaeth yn y dyfodol yn y marchnadoedd symudol a'r cynigion a fydd yn deillio o hynny ar gyfer dylunio'r arwerthiant cyfun;

cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar y materion hyn;

ymgynghori ynghylch Rheoliadau Arwerthiant (deddfwriaeth eilradd) a'u llunio, a chyhoeddi Memorandwm Gwybodaeth, a

llunio fersiwn terfynol meddalwedd i gynnal yr arwerthiant a hyfforddi'r rheini a allai gymryd rhan ynghylch sut mae ei ddefnyddio.

5.16 Er ei bod yn bosibl y bydd yr arwerthiannau ar gyfer y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol 2011/12, rydym yn debyg o gyhoeddi'r trwyddedau perthnasol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol 2012/13. Ein nod yw dyfarnu trwyddedau i ddefnyddio'r band 600 MHz ar amserlen debyg.

## Clirio sbectrwm yn amserol

5.17 Er mwyn gallu dal y dyfarniadau ar gyfer sbectrwm yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz, rydym yn gwneud llawer o waith i glirio'r sbectrwm. Rydym yn symud gwasanaethau sy'n defnyddio'r band 800 MHz ar hyn o bryd - teledu daearol digidol, a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig - i sbectrwm arall. Rydym hefyd yn asesu'r effaith y gallai lansio band eang symudol yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz ei chael ar wasanaethau cyfagos, gan gynnwys radar yn y band 2.7 GHz (a elwir hefyd yn fand S) ac, os oes angen ac os yw'n briodol, cymryd camau i liniaru'r effaith honno.

5.18 Byddwn yn cwblhau ein hasesiad o effaith gwasanaethau symudol ar ddefnyddwyr mewn bandiau cyfagos, mewn da bryd ar gyfer y Memorandwm Gwybodaeth y cyfeirir ato uchod.

5.19 Yn 2011/12, byddwn yn parhau â'n gwaith i symud defnyddwyr cyfredol o'r band 800 MHz:

O fis Mawrth 2011 ymlaen, byddwn yn dechrau gwneud taliadau dan y cynllun cyllido i helpu defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) i symud allan o sianel 69, ar frig y band 800 MHz. Bydd y cynllun yn rhedeg tan ddiwedd 2012/13.

Drwy gydol 2011/12 byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr aml-blecs, Digital UK ac Arqiva i glirio teledu daearol digidol o sianeli 61 a 62 ar waelod y band 800 MHz, gan asesu rhaglenni a gwneud taliadau sy'n berthnasol i'r costau a godir yn rhesymol wrth gyflawni'r gwaith hwn.

5.20 Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r diwydiant i ddiffinio'r rhaglen angenrheidiol o uwchraddio y mae ei hangen i unioni radar band S i allyriadau gan ddefnyddwyr sbectrwm 2.6 GHz a 3.4 GHz.

## Cyflawni gwarant y llywodraeth o sbectrwm di-wifr ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain

5.21 Cynhelir Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain rhwng 27 Gorffennaf a 9 Medi 2012, ac fe'u cynhelir ledled y DU. Mae trefnu sbectrwm i gefnogi'r rhaglenni hyn yn hollbwysig i lwyddiant y Gemau.

5.22 Mae Ofcom yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer Gemau 2012 Llundain, gan drefnu'r holl drwyddedau a sicrhau bod gwasanaethau di-wifr yn rhydd rhag ymyrraeth niweidiol. Ein hamcan yw cyfrannu at ddigwyddiad llwyddiannus drwy sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr presennol.

5.23 Mae'r cyfrifoldebau hyn yn deillio o'r gwarantau a roddwyd gan lywodraeth y DU i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (IOC). Maent yn ymwneud â dyrannu'r sbectrwm y mae ei angen ar gyfer trefnu'r Gemau ac ildio'r ffioedd sbectrwm a fyddai'n daladwy fel arall gan aelodau'r Teulu Olympaidd. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ddarparu'r Gemau yn llwyddiannus ac yn ddiogel, ac mae swyddogaeth Ofcom yn hollbwysig ar gyfer darlledwyr, trefnwyr, athletwyr a'r gwasanaethau brys er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau nhw.

5.24 Mae Ofcom hefyd yn cydnabod cyfraniad gwasanaethau nad ydynt yn dod dan y gwarantau sbectrwm gan lywodraeth y DU er mwyn sicrhau llwyddiant Gemau 2012 Llundain a phwysigrwydd gwasanaethau 'beunyddiol'. Rydym yn gweithio i sicrhau y bydd unrhyw ofynion sbectrwm a fydd yn cael eu creu gan y Gemau a digwyddiadau cysylltiedig eraill yn cael eu diwallu a'u cydlynu â defnyddio sbectrwm yn feunyddiol cymaint ag y bo modd. Dechreuodd Ofcom gynllunio ar gyfer y tasgau hyn yn 2006 a bydd yn eu cwblhau ar ôl i'r Gemau ddod i ben yn 2012.

5.25 Yn ystod 2011/12 byddwn yn gorffen adeiladu'r galluoedd a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau i'r Gemau. Erbyn diwedd of 2011/12 byddwn yn:

Cyhoeddi fersiwn terfynol o'r cynllun sbectrwm manwl o'r amleddau a ddefnyddir yn y Gemau.

Defnyddio ein llwyfan Gwasanaethau Gwybodaeth i aseinio trwyddedau amledd ar gyfer defnyddwyr Olympaidd, cydlynu'r rhain ag aseinio ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn Olympaidd a rheoli gweinyddu'r trwyddedau hyn.

Gweithredu prosesau trwyddedu sy'n diwallu anghenion trefnwyr y Gemau a'r defnyddwyr sbectrwm.

Cyhoeddi'r rhan fwyaf o drwyddedau i ddiwallu gofynion defnyddwyr y Gemau.

Sicrhau bod ein rhwydwaith o offer synwyryddion yn gweithio mewn lleoliadau allweddol i sicrhau nad oes ymyrraeth ar yr amleddau.

Profi a pharatoi offer sy'n canfod cyfeiriad i ddod o hyd i union leoliad unrhyw ymyrraeth niweidiol i ddefnyddwyr y Gemau.

Recriwtio a hyfforddi arbenigwyr a fydd yn gallu rhoi sicrwydd ynghylch argaeledd sbectrwm a rhyddid rhag ymyrraeth yn ystod y Gemau.

Dylunio a defnyddio proses ar gyfer rhag-gomisiynu, profi a thagio'r holl offer di-wifr i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amodau defnyddio sbectrwm.

Llwyddo i ddefnyddio'r galluoedd hyn a phrofi eu gwydnwch mewn digwyddiadau prawf sy'n efelychu amodau'r Gemau mor agos ag sy'n bosibl.

Gweithredu'r dolenni angenrheidiol rhwng Ofcom ac asiantaethau llywodraeth eraill i sicrhau bod materion sbectrwm yn cael eu hadrodd yn gywir ac yn amserol a bod unrhyw broblemau yn cael eu datrys yn gyflym.

5.26 Yn y cyfnod yn syth cyn y Gemau byddwn yn cwblhau trwyddedu ac yn cynnal rhagor o brofion i fireinio ein galluoedd. Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth lawn i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol ar ôl y digwyddiad ac i'n holynwyr mewn dinasoedd Olympaidd eraill.

### Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm tymor canolig, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad

5.27 Yn *Adolygiad o Fframwaith Sbectrwm* diwethaf Ofcom roeddem wedi disgrifio ein Gweledigaeth Sbectrwm fel:

Dylai sbectrwm fod yn rhydd rhag cyfyngiadau defnyddio a thechnoleg cymaint ag y bo modd. Dim ond pan fydd cyfiawnhad dros hynny y dylid defnyddio cyfyngiadau polisi.

Dylai fod yn syml ac yn dryloyw i'r rheini sy'n dal trwyddedau newid perchnogaeth a defnydd sbectrwm.

Dylai hawliau defnyddwyr sbectrwm gael eu diffinio'n glir a dylai defnyddwyr deimlo'n gyfforddus na chaiff yr hawliau hyn eu newid heb reswm da.

5.28 Bydd Ofcom yn parhau i gael ei arwain gan y weledigaeth hon, a gan ystyried ein profiadau ers cyhoeddi'r *Adolygiad o'r Fframwaith Sbectrwm* a'r *Adolygiad o'r Fframwaith Sbectrwm: Cynllun Gweithredu* yn 2005. Byddwn hefyd yn datblygu ein dealltwriaeth o'r galw tebygol am sbectrwm y tu hwnt i'r rhyddhau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, gan edrych ar ddatblygiadau dros ddeng mlynedd a fydd yn effeithio ar ddefnyddio sbectrwm.

## Diben Strategol 3: Helpu i farchnadoedd cyfathrebiadau weithio i ddefnyddwyr

5.29 Mae marchnadoedd cyfathrebiadau'n datblygu'n gyflym ac mae defnyddwyr yn wynebu nifer o fethiannau ar yr ochr galw sy'n gofyn am reoleiddio sector penodol. Rydym yn canolbwyntio ar bryderon ynghylch newid, yn benodol, yn ogystal ag ystyried sut mae darparu gwybodaeth am wasanaethau megis band eang.

### Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn gwella hwylustod newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau

5.30 Mae marchnadoedd yn newid gyda mwy o wasanaethau wedi'u bwndelu yn cael eu cynnig. Wrth i'r ffiniau rhwng gwasanaethau ddod yn fwy aneglur, gall defnyddwyr wynebu dryswch.

5.31 Blaenoriaeth barhaus i Ofcom yw parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau effeithiolrwydd gweithdrefnau newid. Ar hyn o bryd mae Ofcom yn cynnal adolygiad o brosesau newid ar draws telegyfathrebiadau sefydlog a symudol, band eang a theledu drwy dalu.

5.32 Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni dau ganlyniad allweddol:

Mae arnom eisiau sicrhau bod profiad defnyddwyr o newid yn hawdd ac yn hwylus, nawr ac yn y dyfodol. Mae arnom eisiau sicrhau nad oes dim rhwystrau proses diangen wrth newid gwasanaethau sengl a bwndeli.

Mae arnom eisiau sicrhau na fydd prosesau newid yn rhwystro darparwyr sy'n cystadlu i sicrhau manteision i bob defnyddiwr, o ran prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd a gwerth am arian.

5.33 Mae newid rhwng darparwyr cyfathrebu yn aml yn gymhleth ac yn golygu camau cydlynu rhwng darparwyr gwahanol mewn ffyrdd nad ydynt yn codi mewn marchnadoedd eraill. Mae'r ffordd mae defnyddwyr yn newid darparwyr heddiw yn amrywio; weithiau, mae'r prosesau hyn wedi cael eu datblygu gan ddiwydiant, ac mae eraill wedi cael eu dylunio gyda mewnbwn gan Ofcom (neu Oftel). Ceir prosesau gwahanol, gyda nodweddion a phrofiadau gwahanol i ddefnyddwyr.

5.34 Roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ym mis Medi 2010 a oedd yn datgan y prif faterion a phroblemau gyda'r prosesau newid presennol a gweledigaeth strategol o'r model sydd orau gennym ar gyfer y broses newid.

5.35 Rydym wedi ystyried prosesau newid wedi'u harwain gan y cwmni sy'n ennill y cwsmer (GPL) a gan y cwmni sy'n colli'r cwsmer (LPL). Mae prosesau newid wedi'u harwain gan y cwmni sy'n ennill yn golygu bod y defnyddiwr yn gallu dibynnu ar y darparwr newydd i drefnu trosglwyddo eu gwasanaethau o'u darparwr blaenorol i'r darparwr newydd. Mae prosesau newid wedi'u harwain gan y cwmni sy'n colli yn golygu bod angen i'r defnyddiwr gael cod gan eu darparwr presennol cyn iddynt allu newid eu gwasanaeth i'r darparwr newydd. Rydym hefyd wedi ystyried y sefyllfa lle nad oes dim prosesau newid yn bodoli a bod y defnyddiwr yn cydlynu diwedd y gwasanaeth gan y darparwr blaenorol a dechrau'r gwasanaeth gan y darparwr newydd.

5.36 Ein barn ni, yr ydym yn ymgynghori yn ei gylch, yw fel rheol bod prosesau a arweinir gan y cwmni sy'n ennill yn well na'r prosesau a arweinir gan y cwmni sy'n colli. Rydym yn credu bod prosesau wedi'u harwain gan y cwmni sy'n ennill fel rheol yn gwneud yn well na phrosesau a arweinir gan y cwmni sy'n colli o ran canlyniadau i ddefnyddwyr ac o ran cystadleuaeth. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a dadansoddiad, sy'n awgrymu:

Mae prosesau a arweinir gan y cwmni sy'n ennill yn haws i ddefnyddwyr eu defnyddio.

Mae prosesau a arweinir gan y cwmni sy'n ennill yn fwy tebygol o lawer o ddarparu prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd, gan eu bod yn gorfodi darparwyr i gystadlu'n egnïol am gwsmeriaid cwmnïau eraill.

Mae'n hawdd mynd i'r afael â phryderon ynghylch slamio (hy y sefyllfa pan fydd defnyddiwr yn cael ei newid i ddarparwr newydd heb iddynt wybod hynny na chytuno ar hynny) mewn proses a arweinir gan y cwmni sy'n ennill drwy fesurau amddiffyn defnyddwyr priodol - fel y gwelwyd drwy brofiad mewn gwledydd eraill.

5.37 Yn amodol ar ymgynghoriad, byddwn yn gwneud rhagor o waith i weld sut mae hyn yn berthnasol i brosesau newid cyfredol. Nid yw ein hasesiad hyd yn hyn wedi ystyried costau symud o'r broses gyfredol i unrhyw broses newydd ar gyfer gwasanaethau penodol. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant drwy ein Gweithgor

Newid (SWG) i ddatblygu dewisiadau manwl ac amcangyfrifon o'r costau er mwyn cyfrannu at y ddogfen ymgynghori nesaf.

5.38 Rydym yn bwriadu cyhoeddi ail ymgynghoriad yn ystod haf 2011, a fydd yn gosod cynigion manwl ar gyfer diwygio, os o gwbl, y prosesau newid cyfredol a arweinir gan y cwmni sy'n ennill a'r rheini a arweinir gan y cwmni sy'n colli mewn gwasanaethau llinell sefydlog a band eang. Yn amodol ar ymgynghoriad, rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad erbyn diwedd 2011.

### *Contractau adnewyddadwy awtomatig*

5.39 Rydym yn pryderu ynghylch bodolaeth contractau adnewyddadwy awtomatig i ddefnyddwyr preswyl oherwydd bod y contractau hyn yn enghraifft o rwystr contractaidd posibl rhag newid.

5.40 Gyda chontractau adnewyddadwy awtomatig, bydd defnyddwyr yn ymrwymo i gyfnod contract sylfaenol a fydd yn cael ei adnewyddu'n awtomatig oni bai fod y defnyddiwr yn dweud yn bendant wrth y darparwr nad ydynt am i hyn ddigwydd. Bydd rhai darparwyr yn anfon llythyr atgoffa at y cwsmer cyn adnewyddu'r cyfnod contract sylfaenol. Os oes ar ddefnyddiwr eisiau gadael yn ystod cyfnod contract sylfaenol, fel rheol bydd yn rhaid iddynt dalu ffi terfynu cynnar dan delerau eu contract. Mae gennym bryderon ynghylch effaith bosibl contractau adnewyddadwy awtomatig ar y broses gystadleuol, yn enwedig ac ystyried y cynnydd mewn bwndelu a'r perygl y bydd y mathau hyn o gontractau yn dod yn fwy cyffredin.

5.41 Mae'r prosiect hwn wedi ceisio canfod a yw contractau adnewyddadwy awtomatig yn niweidio'r broses gystadleuol ac felly defnyddwyr. Mae ein tystiolaeth hyd yn hyn yn dangos bod niwed ac rydym yn ystyried sut mae amddiffyn defnyddwyr a marchnadoedd.

5.42 Byddwn yn cyhoeddi dogfen a fydd yn rhoi dull gweithredu Ofcom yng nghyswllt contractau adnewyddadwy awtomatig, yn cynnig atebion os yw hynny'n briodol, a'r camau nesaf, yn gynnar yn 2011. Fel canlyniad tymor hwy, mae arnom eisiau sicrhau nad yw contractau adnewyddadwy awtomatig yn cyfyngu ar newid yn effeithlon na chystadleuaeth.

### *Ffioedd ychwanegol mewn contractau ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu*

5.43 Ar 19 Rhagfyr 2008, cyhoeddodd Ofcom Ddatganiad terfynol yn ei *Adolygiad o Ffioedd Ychwanegol* mewn contractau ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu (gan gynnwys ffioedd am beidio â thalu drwy ddebyd uniongyrchol a ffioedd terfynu cynnar). Mae hyn yn cynnwys arweiniad sy'n benodol i'r sector ynghylch defnyddio Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999 gyda rhai telerau contract safonol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyfathrebu. Ym mis Ebrill 2009, agorodd Ofcom raglen gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r arweiniad hwn. Roeddem wedi diweddau'r arweiniad ym mis Tachwedd 2010.

5.44 Daeth cam cyntaf gwaith Ofcom i ben dan y Rhaglen Gorfodi Ffioedd Ychwanegol yn y sector llais sefydlog ym mis Mehefin 2010. Yn dilyn trafodaethau adeiladol mae BT, TalkTalk a Virgin Media wedi cytuno i leihau eu ffioedd terfynu cynnar yn sylweddol ar gyfer llais sefydlog a gwasanaethau llais a band eang (heb gytuno bod eu ffioedd yn annheg). Rydym yn awr yn parhau â gwaith yn y sector llais sefydlog a'r sector band eang a llais gyda darparwyr eraill. Byddwn hefyd yn ystyried sectorau eraill ac efallai y byddwn yn cymryd camau pan fydd hynny'n briodol, ac felly rydym wedi ymestyn y gwaith hwn i 2011/12.

5.45 Fel rhan o'n gwaith gorfodi, gall Ofcom gychwyn ymchwiliadau ar wahân i ddarparwyr a enwir. Rydym yn disgwyl cyflawni canlyniadau tebyg gyda nifer o ddarparwyr llinellau sefydlog a band eang ar wahân i'r rheini a gofnodwyd ym mis Mehefin 2010.

### Sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau yn darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr band eang allu gwneud dewisiadau gwybodus

5.46 Mae cyflymder band eang yn agwedd allweddol ar foddhad defnyddwyr â gwasanaethau band eang. Fodd bynnag, anaml gellir gwireddu'r cyflymder a gaiff ei hysbysebu ac felly ni all defnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Mae Ofcom eisoes wedi dechrau nifer o fentrau sydd wedi'u hanelu at sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth ddibynadwy am gyflymder band eang.

5.47 Ceir dwy haen[10] i'r gwaith hwn a fydd yn parhau gydol 2011/12:

sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer[11] sydd newydd gael ei ddiwygio (wedi'i brofi drwy siopa dirgel); a

chyhoeddi dau adroddiad a oedd yn cymharu cyflymder band eang ar gyfer defnyddwyr.

5.48 Ar ôl trosi'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd ym mis Mai 2011, bydd Ofcom yn cael pwerau newydd mewn perthynas â rheoli traffig. Rydym yn credu bod rheoli traffig gyda mwy o dryloywder yn rhan angenrheidiol o farchnad band eang sy'n gweithio'n dda a byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant, yn ogystal â pharatoi ein dadansoddiad ei hunain, i bennu'r ffordd orau o ddarparu hyn.

## Diben Strategol 4: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

5.49 Wrth i'r dirwedd cyfryngau barhau i esblygu, mae darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau yn dal yn rhan hanfodol o'n swyddogaeth. Rydym yn ystyried y fframwaith cyfredol ar gyfer hyn a gofynion yn y dyfodol ar gyfer rheoleiddio cynnwys.

### Gweithredu gweithdrefnau safonau wedi'u symleiddio

5.50 Mae asesu cwynion ynghylch achosion posibl o dorri gofynion trwydded darlledwyr ac ymchwilio i hynny yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn, yn enwedig mewn meysydd megis amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed, deunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd, triniaeth annheg a thorri preifatrwydd.

5.51 Mae'n hanfodol bod ein gweithdrefnau mor effeithiol â phosibl ar gyfer cynnal yr ymchwiliadau hyn a, phan fo'n angenrheidiol, gosod sancsiynau.

5.52 Fel rhan o adolygiad ehangach o sut mae Ofcom yn cyflawni ei waith, rydym yn ymgynghori ynghylch diwygiadau arfaethedig i'n gweithdrefnau ar gyfer:

[10] http://consumers.ofcom.org.uk/2010/11/get-the-most-out-of-your-broadband/

[11] http://stakeholders.ofcom.org.uk/telecoms/codes-of-practice/broadband-speeds-cop-2010/code-of-practice/

Ymchwilio i achosion o dorri trwyddedau darlledu.

Ymchwilio i gwynion ynghylch tegwch a phreifatrwydd.

Ystyried sancsiynau statudol.

5.53 Bwriad y gweithdrefnau diwygiedig hyn yw gwneud ein hymchwiliadau yn gynt a darparu gwell gwerth i'n rhanddeiliaid. Ar ôl ymgynghori rydym yn bwriadu gweithredu unrhyw weithdrefnau diwygiedig yn 2011.

### Pan fo'n briodol, ystyried dulliau rheoleiddio newydd i reoleiddio cynnwys

5.54 Ar ben hynny, byddwn yn parhau i adolygu ein dull rheoleiddio ehangach yng nghyswllt rheoleiddio cynnwys i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben a'i fod yn dal i wasanaethu buddiannau dinasyddion, defnyddwyr a rhanddeiliaid.

5.55 Bydd nifer o sialensiau yn y maes hwn. Bydd newidiadau mewn technoleg, gan gynnwys gwasanaethau IPTV i'r farchnad dorfol yn y DU, ac esblygiad gwasanaethau ar-alw, yn herio'r strwythurau rheoleiddio presennol, a gafodd eu dylunio gan fwyaf ar gyfer byd darlledu llinol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyd-reoleiddwyr, megis ATVOD, i ddatblygu'r strwythurau rheoleiddio hyn, a byddwn yn ystyried sut gallai dulliau rheoleiddio ar gyfer rheoleiddio cynnwys esblygu ymhellach i aros yn addas i'r diben ac yn gymesur.

## Diben Strategol 5: Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd

5.56 Mae Ofcom wedi arwain neu gyfrannu at nifer o faterion polisi cyhoeddus ehangach ar gais y Senedd a'r llywodraeth. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn parhau, pan fydd y Senedd yn dod o hyd i swyddogaeth wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Ofcom. Rydym wedi blaenoriaethu paratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd arfaethedig yng nghyswllt post, a chyflawni ein cyfrifoldeb dan y Ddeddf Cyfathrebiadau a'r Ddeddf Economi Ddigidol mewn perthynas â thorri hawlfraint ar-lein.

### Paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â phost a'u cyflawni

5.57 Ar ôl cyhoeddi'r Mesur Gwasanaethau Post, mae Postcomm ac Ofcom yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau trosglwyddo cyfrifoldeb rheoleiddio gan amharu cyn lleied â phosibl ar y diwydiant, ar ddefnyddwyr ac ar staff, a datblygu gwaith parhaus i newid y fframwaith rheoleiddio presennol cyn ac ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur newydd.

5.58 Ar ei ffurf ddrafft bresennol, mae'r Mesur yn mynnu bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau post mewn ffordd y mae'n ystyried a fydd yn sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol. Drwy wneud hynny, gofynnir i Ofcom roi sylw dyledus i'r angen i wasanaeth post cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon. Ar ben hynny, mae'r Mesur yn cynnig disodli'r drefn drwyddedu bresennol ar gyfer darparwyr gyda system awdurdodi cyffredinol, yn amodol ar amodau rheoleiddio a bennir gan Ofcom, fel sydd eisoes yn berthnasol i ddarparwyr cyfathrebiadau.

5.59 Mae'r Mesur yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd dyddiad trosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio dros y sector post o

Postcomm i Ofcom yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

5.60 Yn y cyfnod cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio, mae Postcomm ac Ofcom wedi cytuno i gydweithio cymaint ag y bo modd i gynnal sefydlogrwydd rheoleiddio ar gyfer defnyddwyr a gweithredwyr post ac i sicrhau cyfnod pontio llyfn. Bydd Ofcom yn gyfrifol am weithredu fframwaith rheoleiddio newydd pan ddaw'r Mesur i rym. Yn y cyfamser, Postcomm yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y sector post a'r pwynt cyswllt ar gyfer rhanddeiliaid y diwydiant post.

### Gweithredu darpariaethau torri hawlfraint ar-lein Deddf Economi Ddigidol 2010

5.61 Bydd Ofcom yn mynd â'i gyfrifoldebau rhagddo ar gyfer gweithredu nifer o ddarpariaethau dan Ddeddf Economi Ddigidol 2010. Dan y Ddeddf Economi Ddigidol, rhaid i weithredu a rheoleiddio'r dyletswyddau hyn gael eu pennu mewn cod. Gan nad yw'r diwydiant wedi llunio cod cymeradwy, mae gan Ofcom ddyletswydd i lunio cod yn unol â gofynion y Ddeddf Economi Ddigidol. Byddwn hefyd yn ymgynghori ynghylch tariff ar gyfer prosesu adroddiadau torri hawlfraint gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd ac ynghylch sefydlu corff annibynnol i wrando apeliadau tanysgrifwyr yn erbyn adroddiadau.

5.62 Wrth baratoi ar gyfer dyletswyddau adrodd Ofcom, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch sut gallwn adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu a hyrwyddo gwasanaethau cyfreithiol, mentrau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o dorri hawlfraint ac ar-lein, a chamau gweithredu gorfodi a gymerir gan y rheini sy'n berchen ar yr hawlfraint yn erbyn y rheini yr honnir eu bod yn torri'r hawlfraint. Gofynnir i ni adrodd yn chwarterol ar y lefelau o dorri hawlfraint ar-lein a amcangyfrifir, gyda'r adroddiad cyntaf yn berthnasol i'r chwarter llawn cyntaf ar ôl gweithredu. Ar wahân, byddwn yn adrodd yn flynyddol ar ystod ehangach o fesurau, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf.

### Paratoi adroddiad statudol i'r llywodraeth ar drefniadau trwyddedu ar gyfer sianeli 3 a 5 ar ôl 2014

5.63 Dan y Ddeddf Cyfathrebiadau, rhaid i Ofcom baratoi a chyflwyno adroddiad trwyddedu sianel 3/5 i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn Mehefin 2012 ar yr hwyraf, cyn i'r trwyddedau cyfredol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2014.

5.64 Yn yr adroddiad hwnnw, rhaid i Ofcom roi ei farn ar y trefniadau ar gyfer adnewyddu a'r amodau trwydded perthnasol sy'n ymwneud â chapasiti pob corff sy'n dal trwydded i gyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chost sy'n gynaliadwy yn fasnachol.

5.65 Rhaid i Ofcom hefyd roi unrhyw argymhellion ynghylch a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn atal adnewyddu un drwydded neu fwy. Yng ngoleuni'r safbwyntiau ac unrhyw argymhellion gan Ofcom, gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn datgan na ddylid adnewyddu un neu fwy o'r trwyddedau a bennir.

## Rydym wedi ystyried ein hamcanion ar gyfer y blaenoriaethau hyn

5.66 Mae'n bwysig ein bod yn gallu asesu ein bod wedi llwyddo i gyflawni ein blaenoriaethau blynyddol arfaethedig. Felly mae arnom angen cael syniad cadarnhaol clir o'r canlyniadau cadarnhau rydym yn ceisio eu cyflawni ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi dod o hyd i

ganlyniadau ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau a byddwn yn asesu ein cynnydd tuag at eu cyflawni.

## Canlyniadau dangosol ein blaenoriaethau 2011/12

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd |
|---|---|---|---|---|
| • *Mwy o arloesedd a dewis i ddefnyddwyr yn y farchnad Teledu drwy Dalu*<br>• *Buddsoddi'n effeithiol mewn rhwydweithiau Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, cynnyrch mwy arloesol a chystadleuaeth effeithiol* | • *Gwasanaethau di-wifr newydd, e.e. dros fand eang symudol y genhedlaeth nesaf*<br>• *Dyfarnu a chyhoeddi trwyddedau sbectrwm newydd erbyn Chwarter 1 2012/13*<br>• *Cyflawni gwarant sbectrwm y Gemau Olympaidd yn llwyddiannus*<br>• *Rhanddeiliad yn gwybod am yr agenda ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol o ran rheoli sbectrwm, gan gynnwys y potensial i ryddhau o'r newydd* | • *Mwy o Ddefnyddwyr yn ei chael yn haws newid o un darparwr gwasanaethau cyfathrebu i un arall*<br>• *Gwybodaeth glir ar gael yn rhwydd i ddefnyddwyr am nodweddion cynnyrch band eang*<br>• *Caiff defnyddwyr wybod am arferion rheoli traffig neu gyfyngiadau cyflymder cyn ymrwymo i gontractau tymor hir* | • *Trefn rheoleiddio cynnwys a safonau mwy effeithlon er mwyn cyflawni canlyniadau o safon uchel i gynulleidfaoedd*<br>• *Dadansoddi esblygiadau posibl ym maes rheoleiddio cynnwys mewn amgylchedd o gyfuno* | • *Trosglwyddo'n llwyddiannus i drefn newydd yn y diwydiant post, gan sicrhau prisiau effeithlon a gwasanaeth cyffredin, lle bo hynny'n briodol*<br>• *Lansio a gweithredu'n llwyddiannus y Cod Rhwymedigaethau Cychwynnol (dan y Ddeddf Economi Ddigidol)*<br>• *Cynnig dewisiadau i'r Llywodraeth o ran fframwaith Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus clir a chynaliadwy* |

**Adran 6**

# Prif feysydd gwaith eraill ar gyfer 2011/12

## Yn ogystal â'n blaenoriaethau, byddwn yn ymgymryd â gwaith arall

6.1 Mae gennym nifer o feysydd gwaith pwysig ar y gweill ar gyfer 2011/12, sy'n seiliedig ar ein dibenion strategol, sydd yn ychwanegol at ein blaenoriaethau blynyddol. Sef:

### Prif feysydd gwaith Ofcom 2011/12

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy**

- Gweithredu cynigion rheoleiddio a rheolaeth ffioedd newydd
  - **Cyfraddau terfynu contract symudol**
  - **Cadw rhif symudol**
  - **WLR**
  - **LLU**
  - **ISDN 30**
  - **WBA (Marchnad 1)**
- **Symleiddio trefn reoleiddio** gwasanaethau nad ydynt yn rhai daearyddol
- Cynnal adolygiadau marchnad dan y Fframwaith Ewropeaidd e.e.
  - Adolygiad newydd o'r **Farchnad Cysylltedd Busnes**
- **Gorfodi cystadleuaeth** e.e. drwy ddatrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion dan y Ddeddf Cystadleuaeth a gosod cosbau lle bo hynny'n briodol
- **Gweithredu fframwaith anghydfodau newydd** gan ystyried ymatebion rhanddeiliaid a chynnal gwaith dilynol lle bo angen

**Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon**

- Sicrhau bod **ystodau eang o rifau ffôn ar gael** a hyrwyddo'r broses o'u dyrannu'n effeithlon
- **Symleiddio masnachu sbectrwm** a chyflwyno trefn lesio sbectrwm
- **Adolygu sut mae Ofcom yn rheoli sbectrwm gwasanaethau dolen sefydlog**
- **Gwaith trwyddedu sbectrwm effeithiol:** Cynllunio'r broses dyrannu sbectrwm a rhoi trwyddedau. Cyhoeddwyd oddeutu 18,000 o drwyddedau newydd yn 2011/12
- **Trwyddedu sbectrwm** Cytgordio rhyngwladol, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion Polisïau Ewropeaidd

**Gorfodi sbectrwm**

- Cymryd offer a gedwir heb awdurdod ac erlyn lle bo hynny'n briodol

**Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr**

- Sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer defnyddwyr â **nam ar eu clyw**
- **Diogelu rhag, a gorfodi yn erbyn telerau ac arferion annheg gan Ddarparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu**
  - Mynd i'r afael â phryderon ynghylch galwadau ffôn mud parhaus, cam-werthu a slamio
  - Monitro cydymffurfio â CP gyda rheolau newydd ar Drin Cwynion
  - Datrys cwynion gwylwyr
- Cynnal a chyhoeddi **ymchwil defnyddwyr**
- Sicrhau effeithiolrwydd trefn **trin cwynion defnyddwyr** gan gyrff datrys anghydfodau cymeradwy
- Parhau i hybu buddsoddiad a fyddai'n mynd i'r afael â **'mannau gwan' band eang a ffonau symudol**

**Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau**

- Sicrhau bod **safonau rhaglenni'n cael eu gorfodi** yn effeithiol ac yn effeithlon, yn enwedig o ran amddiffyn plant
  - Niwed a thramgwydd/diduedd
  - Tegwch a Phreifatrwydd
  - Cyfeiriadau masnachol
- Cefnogi cyrff cyd-reoleiddio a hunanreoleiddio e.e. **ASA, ATVOD ac UKCCIS** yn eu gwaith
- **Trwyddedu gwasanaethau Teledu a Radio** yn y DU (gan gynnwys gwasanaethau Teledu Lleol newydd o bosibl)
- **Ymgysylltu â Channel 4 ar ei fframwaith newydd**

**Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd**

- **Gweithredu dyletswyddau rheoleiddio newydd** yn cynnwys y rheini sy'n deillio o'r **Fframwaith Telathrebu Ewropeaidd**
- **Darparu cefnogaeth a chyngor technegol i'r Llywodraeth ar weithredu polisïau** (E.e. Dichonoldeb technegol o ran Teledu Lleol, cefnogaeth ar DAB, yr Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol)
- Cefnogi'r polisïau newid o ran **DSO Teledu a Radio**
- **Cynrychioli'r gwledydd**
- **Cynrychioli defnyddwyr hŷn ac anabl**
- **Ymgysylltiad Rhyngwladol**
- Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fyddai'n mynd i'r afael â **'mannau gwan' band eang a ffonau symudol**
- Cynnal yr **adolygiad seilwaith cyntaf**
- Adrodd ar **addasu i newid hinsawdd**

A1.1 **Ymateb i'r her mewn gwariant cyhoeddus drwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar draws y corff**

# Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

## Gweithredu cynigion yng nghyswllt cyfraddau terfynu symudol

6.2 Bydd y rheolau presennol sy'n pennu costau terfynu galwadau cyfanwerthu yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011. Rydym wedi dechrau adolygiad o'r farchnad i ystyried pa reolau ddylai ddod i rym pan ddaw'r drefn bresennol i ben. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein casgliadau ynghylch atebion priodol, gan gynnwys rheolaeth ffioedd, ddechrau 2011.

## Gweithredu newidiadau i hwyluso cludo rhifau symudol

6.3 Yn ystod haf 2010, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd Ofcom ei benderfyniad i gyflwyno newidiadau yng nghyswllt cludo rhifau symudol, er mwyn cwtogi'r cyfnod a gymerir i ddefnyddwyr gludo rhif.  Roeddem hefyd yn cynnig rheolau a oedd yn mynnu bod darparwyr yn rhoi Cod Awdurdodi Cludo (PAC) i ddefnyddwyr sy'n gofyn amdano, naill ai ar unwaith dros y ffôn neu drwy neges destun cyn pen dwy awr. Mae'r newidiadau a gynigir hefyd yn cyd-fynd â'r cynigion Ewropeaidd ar gyfer cludo un-diwrnod ar draws yr UE. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant a defnyddwyr i sicrhau'r cynllun rheoleiddiol newydd a ddaw i rym ym mis Ebrill  2011 a chodi ymwybyddiaeth ohono.

## Sefydlu rheolaeth ffioedd newydd ar gyfer dadfwndelu dolen leol (LLU) a rhentu llinell cyfanwerthu (WLR)

6.4 Daw'r rheolaeth bresennol ar ffioedd ar gyfer dadfwndelu dolen leol (LLU) a rhentu llinell cyfanwerthu (WLR) i ben yn 2011. Y cynnig ar hyn o bryd yw y bydd unrhyw reolaeth ffioedd newydd yn pennu nenfwd ffioedd newydd i sicrhau bod ffioedd ar gyfer gwasanaethau LLU ac WLR yn gogwyddo at y gost dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2014. Byddant hefyd yn rhoi cymhelliant i Openreach ddarparu'r gwasanaethau hyn mor effeithlon ag sy'n bosibl.

## Rheolaeth ffioedd ar y gwasanaethau mynediad band eang cyfanwerthu (WBA) (Marchnad 1)

6.5 Byddwn yn cwblhau ein gwaith ar y rheolaeth ffioedd arfaethedig ar y gwasanaethau mynediad band eang cyfanwerthu a gyflenwir gan BT yn ardaloedd cyfnewidfa Marchnad 1.

6.6 Mae Marchnad 1 yn cynnwys cyfnewidfeydd sydd â BT yn unig ddarparwr rhwydwaith mynediad band eang cyfanwerthu yno; mae hyn yn berthnasol i 11.7% o eiddo'r DU. Canfu'r adolygiad o'r farchnad mynediad band eang fod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad hon. Daeth yr adolygiad i gasgliad gyda datganiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010.  Bydd y rheolaeth ffioedd arfaethedig yn diogelu defnyddwyr gwasanaethau band eang drwy sicrhau bod ffioedd BT am y gwasanaethau cyfanwerthu a brynir gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd ym Marchnad 1 yn gogwyddo at y gost dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2014.

## Symleiddio rheoleiddio gwasanaethau nad ydynt yn rhai daearyddol

6.7 Galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol yw'r rheini a wneir i'r ystodau 03, 05, 070/076, 08, 09, ac 116/118. Mae Ofcom yn pryderu bod y farchnad bresennol yn siomi defnyddwyr a darparwyr y gwasanaethau sy'n defnyddio'r ystodau hyn. Rydym o'r farn bod achos cryf dros ddiwygio rheoleiddio.

6.8 Yn gynnar yn ystod 2011/12 bydd Ofcom yn cwblhau adolygiad strategol o'r farchnad ac yn dechrau'r broses o weithredu canlyniadau polisi'r ymgynghoriad. Bydd y gweithredu'n seiliedig ar y newidiadau disgwyliedig i'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn 2011 o ganlyniad i'r diwygiadau i'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd. Bydd y rhain yn egluro pwerau Ofcom i ymyrryd yn y maes hwn er mwyn diogelu defnyddwyr.

### Cynnal adolygiadau o'r farchnad cysylltedd busnes a'r rheolaeth ffioedd llinellau ar les

6.9 Yn ystod 2011-12, bydd Ofcom yn cymryd camau breision ymlaen gyda'r adolygiad nesaf o'r farchnad cysylltedd busnes a'r rheolaeth ffioedd gysylltiedig ar gyfer llinellau ar les. Bydd yr adolygiad hefyd yn asesu i ba raddau y mae amodau cystadleuol wedi newid ym marchnadoedd y DU ar gyfer llinellau ar les, ac a ddylid diwygio'r dyletswyddau rheoleiddio a ddefnyddir gyda BT a KCOM yn y marchnadoedd hyn.

6.10 Os bydd yr adolygiad o'r farchnad yn gweld bod angen parhaus am reolaeth ffioedd llinellau ar les, sy'n berthnasol i'r gwasanaethau cyfanwerthu (cylchedau preifat rhannol a gwasanaethau Ether-rwyd) a ddarperir gan BT yn y marchnadoedd y mae ganddo bŵer sylweddol yn y farchnad ynddynt, byddwn yn cynnal adolygiad penodol o'r rheolaeth honno. Rydym yn bwriadu cwblhau'r adolygiad o'r farchnad ac (os oes angen) y rheolaeth ffioedd cyn diwedd mis Medi 2012, pan ddaw'r rheolaeth ffioedd bresennol i ben.

### Pennu rheolaeth pris ar gyfer gwasanaethau ISDN30 BT

6.11 Caiff gwasanaethau cyfanwerthu ISDN30 BT eu defnyddio'n bennaf gan fusnesau sydd angen wyth llinell ffôn neu fwy mewn safle. Roedd yr adolygiad o farchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu ISDN30 wedi canfod bod gan Openreach bŵer sylweddol yn y farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau cyfanwerthu ISDN30 a bod y pris ar gyfer y gwasanaethau hyn yn uwch na'r lefel gystadleuol. Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad yn ystod haf 2011.

6.12 Bydd y prosiect rheolaeth prisiau ISDN30 yn:

Ymchwilio i broffidioldeb Openreach ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthu ISDN30;

asesu a oes risg berthnasol o Openreach yn pennu ac yn cynnal prisiau ar lefel sy'n rhy uchel; a

phennu ffurf a lefel unrhyw reolaeth prisiau a bennir y mae'n briodol ei gosod ar y gwasanaethau hyn.

### Datrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion dan y Ddeddf Cystadleuaeth a gosod cosbau pan fo'n briodol

6.13 Byddwn yn parhau â'n gwaith ar ymchwiliadau ac anghydfodau parhaus yng nghyswllt cystadleuaeth, ac yn rhoi sylw i unrhyw faterion newydd a fydd yn codi yn ystod 2011/12. Mae gennym ddyletswydd statudol i gyflawni'r swyddogaeth hon a byddwn yn darparu digon o adnoddau er mwyn sicrhau y caiff ei chyflawni'n amserol.

6.14 Dros y ddwy flynedd diwethaf mae Ofcom wedi gweld cynnydd mewn apeliadau, cyfreitha ac anghydfodau a gyflwynir gan rai rhanddeiliaid, yn enwedig yn y sector telathrebu. Mae hyn wedi rhoi sialens newydd i ni. Gall olygu oedi cyn gweithredu ein penderfyniadau (a'r manteision i ddefnyddwyr bydd hynny'n ei olygu). Mae hefyd yn

peri sialens weithredol ac ariannol ychwanegol i ni hefyd o ran amddiffyn ein penderfyniadau mewn proses apeliadau sy'n aml yn hir ac yn fanwl.

6.15 Rhaid i gostau canlyniadol uwch yr apeliadau hyn felly gael eu hadennill gan y sector rhanddeiliaid perthnasol yn unol â'n datganiad o egwyddorion codi ffioedd. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ynghylch newidiadau i'r broses datrys anghydfodau a fydd yn ceisio ei gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol. Caiff y newidiadau eu rhoi ar waith yn gynnar yn ystod 2011.

## Diben Strategol 2: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

### Sicrhau bod ystodau rhifau ffôn daearyddol ar gael i ddarparwyr cyfathrebiadau a hybu eu dyrannu yn effeithlon ac yn effeithiol

6.16 Mae rhifau daearyddol yn golygu rhifau ffôn llinell sefydlog y mae eu codau deialu yn dechrau â 01 a 02. Mae defnyddwyr yn eu hadnabod ac yn eu gwerthfawrogi. Ofcom sy'n gyfrifol am weinyddu'r adnodd cyhoeddus hwn ac am sicrhau bod digon o rifau ar gael i ddarparwyr cyfathrebiadau er mwyn eu galluogi i gynnig dewis o wasanaethau i ddefnyddwyr.

6.17 Yn ddiweddar cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ynghylch y newidiadau arfaethedig i sut byddem yn rheoli rhifau daearyddol yn y dyfodol. Mae'r cynigion wedi cael eu dylunio i gynnal gallu Ofcom i ddiwallu gofynion darparwyr cyfathrebiadau yn y dyfodol ar gyfer rhifau daearyddol ym mhob rhan o'r DU. Nid yw ein cynigion yn effeithio ar y rhifau ffôn daearyddol sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gan fod y rhain yn dal i ddiwallu anghenion defnyddwyr ar y funud.

6.18 Yn amodol ar ymgynghoriad, os byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynigion byddent yn golygu:

Rhywbryd yn y dyfodol, byddai'n rhaid i ddefnyddwyr ffôn mewn rhai ardaloedd ddeialu eu cod ardal eu hunain wrth wneud galwadau lleol o ffonau llinell sefydlog. Byddai hyn yn creu mwy o rifau yn yr ardaloedd dan sylw, drwy ganiatáu defnyddio rhifau sydd â '0' neu '1' yn ddigid cyntaf ar ôl cod yr ardal.

Byddai darparwyr cyfathrebiadau yn talu, mewn cynllun peilot i ddechrau, am rifau daearyddol wedi'u dyrannu mewn codau ardal lle ceir pryderon penodol ynghylch prinder rhifau. Diben gwneud hyn fyddai cynyddu'r cymhelliant i ddarparwyr cyfathrebiadau ddefnyddio rhifau daearyddol yn effeithlon, ac felly lleihau'r angen i greu mwy o rifau mewn rhai ardaloedd.

Byddem yn cryfhau ein gweithdrefnau gweinyddol ar gyfer dyrannu rhifau daearyddol i ddarparwyr cyfathrebiadau, ac yn monitro eu defnydd.

6.19 Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad a chynnal ymgynghoriad pellach yn ystod haf 2011 a chyhoeddi datganiad terfynol yn nes ymlaen yn 2011. Yn 2012 nod Ofcom yw gweithredu'r penderfyniadau polisi a wnaed yn 2011. Mae Ofcom hefyd yn bwriadu helpu'r diwydiant i roi cynlluniau ar waith i greu cyflenwadau newydd o rifau daearyddol lle bydd eu hangen.

### Prynu a gwerthu sbectrwm

6.20 Mae prynu a gwerthu sbectrwm yn fecanwaith pwysig er mwyn sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau drwy ganiatáu i ddefnyddwyr gael gafael ar sbectrwm drwy'r farchnad; mae'n gweithio fel catalydd ar gyfer

arloesedd a chystadleurwydd mewn gwasanaethau di-wifr. Yn ystod mis Medi 2009 roeddem wedi ymgynghori ynghylch newidiadau i wneud y broses prynu a gwerthu yn symlach ac yn fwy deinamig, gan gynnwys manteisio ar newid i'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd sy'n caniatáu ffordd newydd o brynu a gwerthu o'r enw 'lesio sbectrwm'.

6.21 Ym mis Ebrill 2010 roeddem wedi cyhoeddi ein bwriad mewn egwyddor i symud ymlaen â'r newidiadau hyn ac rydym yn bwriadu gwneud hynny, o bosibl yn ystod ail hanner 2011, os bydd adnoddau yn caniatáu.

### Adolygu rheolaeth Ofcom o sbectrwm gwasanaethau dolen sefydlog

6.22 Yn dilyn ein hymgynghoriad ynghylch y fframwaith ar gyfer prisio sbectrwm ym mis Mawrth 2010, roeddem wedi cyhoeddi ein Datganiad ar 17 Rhagfyr lle'r oeddem yn amlinellu ein bod wedi cael llawer o gefnogaeth ar gyfer adolygu'r ffioedd a godir ar gyfer trwyddedau yn y bandiau sbectrwm a ddefnyddir gan ddolenni sefydlog. Fel y dywed y Datganiad hwnnw, mae Ofcom yn cydnabod mai dim ond un o'i lifrau rheoli sbectrwm yw'r ffioedd, ac na fydd newid y ffioedd yn ateb pob un broblem a all godi mewn perthynas â chael gafael ar sbectrwm a'i ddefnyddio. Mae Ofcom yn disgwyl mynd ar drywydd yr adolygiad, os oes adnoddau ar gael, yn ystod 2011-12.

### Cynnig mwy o e-wasanaethau i'n rhanddeiliaid

6.23 Mae Ofcom yn bwriadu cyflwyno sianeli cyfathrebiadau newydd ar gyfer ei randdeiliaid, gan wella mynediad i ddefnyddwyr a chwsmeriaid trwyddedu drwy borth gwe gwell. Drwy gynnig e-wasanaethau dros y we, bydd Ofcom yn ymestyn argaeledd ei wasanaethau y tu hwnt i oriau swyddfa arferol a bydd yn darparu gwell gwerth am arian. Mae adran 8 yn cynnwys rhagor o fanylion am fentrau e-wasanaethau Ofcom.

### Datblygu fframwaith rhyngwladol sefydlog i gefnogi ein hagenda sbectrwm

6.24 Mae ymgysylltu rhyngwladol yn hanfodol er mwyn rheoli'r sbectrwm radio yn effeithiol. Bydd Ofcom yn parhau i gymryd rhan yn y fforymau rhyngwladol perthnasol ar lefelau dwyochrog, Ewropeaidd a rhyngwladol, i sicrhau bod fframwaith rhyngwladol sefydlog yn sail i'n rhaglen dyfarniadau sbectrwm ac i gydlynu'r ffordd rydym yn defnyddio sbectrwm. Byddwn yn parhau i fod yn weithredol yn CEPT ac ITU ac yn benodol, byddwn yn cymryd rhan yn y paratoadau Ewropeaidd ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd, a gynhelir nesaf yn Geneva ym mis Ionawr 2012.

### Sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion polisi Ewropeaidd

6.25 Mae gan Ofcom bwerau wedi'u dirprwyo dan y Ddeddf Cyfathrebiadau a Chyfarwyddiadau Gweinidogol i gynrychioli Llywodraeth Ei Mawrhydi ar y Pwyllgor Sbectrwm Radio a'r Grŵp Polisi Sbectrwm Radio.

6.26 Rydym hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn meysydd polisi sbectrwm UE lle nad oes gennym bwerau penodol a ddirprwywyd, ond lle mae ein mewnbwn yn bwysig i sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y DU. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys y Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio a gweithredu darpariaethau sbectrwm y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd a ddiwygiwyd yn ddiweddar. Rydym yn ceisio sicrhau bod Penderfyniadau Ewropeaidd yn cyd-fynd â pholisïau rheoli sbectrwm y DU, dynodi sbectrwm a rheoleiddio ei ddefnyddio dim ond pan fydd cyfiawnhad dros hynny i gynyddu manteision rhyddhau a phrynu a gwerthu sbectrwm.

6.27 Yn 2011/12 byddwn yn canolbwyntio ar nifer o weithgareddau penodol:

Y Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio (RSPP); o ganlyniad i ddarpariaethau newydd yn y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig, mae'r Comisiwn wedi dod ymlaen â chynigion deddfwriaethol ar gyfer Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio. Bydd hyn yn rhoi llwybr ar gyfer rheoli sbectrwm yn yr UE ar gyfer y pedair i'r pum mlynedd nesaf. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft hon yn mynd drwy'r broses penderfyniad ar y cyd ac yn debyg o fod yn brif faes ffocws ar gyfer Ofcom dros y 12 mis nesaf.

Gweithredu'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig; bydd Ofcom yn gweithredu arferion rheoli sbectrwm newydd (ee lesio sbectrwm) a bydd yn diwygio rhai sydd eisoes yn bodoli (ee rhaid adolygu pob trwydded cyn pen cyfnod o bum mlynedd er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â darpariaethau newydd ar niwtraliaeth gwasanaeth a thechnoleg).

### Gorfodi sbectrwm

6.28 Mae gwaith Ofcom ar orfodi sbectrwm yn cynnwys:

cymryd offer a gedwir heb awdurdod ac erlyn gosodwyr a pherchnogion pan fo hynny'n briodol (mewn perthynas â darlledu anghyfreithlon);

mabwysiadu dull gweithredu newydd ar gyfer darlledu anghyfreithlon, gweithio gydag asiantaethau eraill, megis awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r heddlu i leihau'r ymyrraeth niweidiol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig;

gwneud ymdrechion ychwanegol i fynd i'r afael â gwerthu offer anghyfreithlon ar-lein. Byddwn yn gweithredu mecanwaith gwell ar gyfer targedu, addysgu a hysbysu rhanddeiliaid a galluogi mesurau cyflym yn erbyn diffyg cydymffurfio bwriadol;

darparu cyngor a help mewn achosion o ymyrraeth; a

chynyddu ein ffocws ar achosion o ddefnyddio sbectrwm radio busnes heb drwydded, cau'r rhwyd ar y rheini sy'n dal trwyddedau ond sy'n methu talu eu ffi'r drwydded mewn da bryd.

## Diben Strategol 3: Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr

### Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw

6.29 Fel rhan o'n dyletswydd i ystyried anghenion pobl anabl a phobl hŷn, byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o wasanaethau cyfnewid, sy'n helpu defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd i wneud a derbyn galwadau ffôn. Byddwn yn edrych ar y gwasanaeth cyfnewid testun sydd eisoes ar gael, a ddarperir dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, a phosibilrwydd gwasanaethau cyfnewid gwell neu ychwanegol. Pan fyddwn yn dod o hyd i fylchau mewn darpariaeth a meysydd i'w gwella, byddwn yn ymgynghori ynghylch cynigion i wella.

## Amddiffyniad yn erbyn telerau ac arferion annheg gan ddarparwyr cyfathrebiadau a gorfodaeth yn erbyn hynny

6.30 Yn yr un modd â blynyddoedd a fu, bydd Ofcom yn gweithio at sicrhau bod rheoliadau a mecanweithiau priodol i amddiffyn defnyddwyr ar waith, gan gymryd camau gorfodi yn erbyn darparwyr cyfathrebiadau yn ôl yr angen.

6.31 Byddwn yn symud ymlaen i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn yn well rhag posibilrwydd cam-werthu gwasanaethau llais llinell sefydlog, gan gynnwys slamio. Bydd hyn yn cynnwys ein gwaith gyda Swyddfa’r Dyfarnwr Telathrebu i fynd i’r afael â phroblemau lle mae defnyddwyr yn newid darparwyr mewn camgymeriad. Byddwn hefyd yn cyflawni mwy o waith gorfodaeth ar alwadau mud, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio ein polisi newydd, a chynyddu pwerau dirwyo, i atal galwadau mud parhaus sy’n gallu achosi cryn boen a phryder i ddefnyddwyr.

6.32 Ar ôl cyflwyno rheolau newydd arfaethedig ynghylch delio â chwynion yn ystod mis Ionawr 2011, byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau hyn i leihau'r pryder a niwed a achosir gan fethiant darparwyr cyfathrebiadau i ddelio â phroblemau cwsmeriaid yn foddhaol.

6.33 Gall materion newydd ddod i'r fei yn ystod y flwyddyn a byddwn yn cadw cyfran o'n hadnoddau er mwyn ein galluogi i ymateb i'r rhain yn effeithiol.

6.34 Byddwn hefyd yn ystyried cwynion gwylwyr i Ofcom sy'n ymwneud â nifer o feysydd megis amddiffyn pobl ifanc dan 18, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd, ac amhleidioldeb a chywirdeb mewn newyddion.

## Cynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr er mwyn cyfrannu at ein gwaith

6.35 Rydym wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i ni ddeall agweddau defnyddwyr, a gallwn gyflawni hyn drwy gynnal rhaglen gynhwysfawr o ymchwil marchnad, a deall datblygiadau yn y farchnad, a byddwn yn gwneud hyn drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad (gweler adran 2 y ddogfen hon).

## Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fydd yn mynd i'r afael â 'mannau gwan' ffonau symudol

6.36 Mae ‘mannau gwan symudol’ yn golygu ardaloedd lle na all pobl gael gafael ar wasanaethau symudol. Roedd ymchwilio i'r mater hwn yn un o'n blaenoriaethau ar gyfer 2010/11. Roeddem wedi rhoi blaenoriaeth iddo oherwydd pryderon defnyddwyr a rhanddeiliaid gan fod y mater hwn yn cael ei godi droeon yn ein Pwyllgorau Cynghori fel pryder penodol i'r rheini sy'n byw mewn rhannau o'r DU, gan gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle nad yw'r boblogaeth mor ddwys.

6.37 Yn 2010/11 roeddem wedi datblygu sylfaen dystiolaeth i ddeall y mater hwn ac wedi egluro cwmpas swyddogaeth Ofcom ar gyfer dod o hyd i atebion. Ym mis Tachwedd 2010 roeddem wedi cyhoeddi ein hymchwil hyd yn hyn a'n camau nesaf. Roeddem wedi dod hyd i bum math penodol o broblem – mannau gwan llwyr (dim darpariaeth o gwbl), mannau gwan 3G (dim darpariaeth band eang symudol), mannau gwan rhannol (yn dibynnu ar y cwmni), darpariaeth ag ymyriadau wrth symud a darpariaeth dan do. Gwelsom fod cwmnïau symudol yn symud ymlaen gyda rhai o'r materion hyn – yn enwedig mannau gwan 3G, mannau gwan rhannol a darpariaeth dan do.

6.38 Ond ni fydd grymoedd y farchnad ar eu pen eu hunain yn ddigon i ddatrys y problemau hyn. Yn benodol, mae mannau gwan llwyr, a geir mewn ardaloedd gwledig gan fwyaf, yn debyg o barhau i ryw raddau gan nad oes llawer o bosibilrwydd ar gyfer gwelliannau a fydd yn cael eu gyrru ymlaen am resymau masnachol.

6.39 Rydym yn gwneud nifer o weithgareddau i adeiladu ar ein hymchwil a symud at atebion ymarferol sydd o fewn cwmpas ein dyletswyddau a'n pwerau.

6.40 Mae defnyddio ffonau symudol wedi newid yn ddramatig dros y degawd diwethaf ac mae'n dal i esblygu. Wrth i ddyfeisiau wella, gan gynnig rhaglenni newydd, bydd disgwyliadau ynghylch argaeledd gwasanaethau symudol yn codi ymhellach fyth. Byddwn yn monitro'r mater hwn; yn fwy penodol, byddwn yn canolbwyntio ar faterion darpariaeth symudol yn y meysydd canlynol:

*Ystyried yr angen i wella gwybodaeth am ddarpariaeth:* Byddwn yn edrych ar sut caiff gwybodaeth am ddarpariaeth ei darparu i ddefnyddwyr, pa mor gywir yw'r wybodaeth honno, sut mae defnyddwyr yn defnyddio'r wybodaeth a'i heffaith arnynt. Ein nod tymor hwy yw archwilio sut gall gwybodaeth well i ddefnyddwyr ei gwneud hi'n haws newid, a all gynyddu'r gystadleuaeth rhwng cwmnïau yng nghyswllt darpariaeth.

*Archwilio'r cwmpas i hwyluso darpariaeth wrth symud:* Rydym yn ceisio helpu i wella darpariaeth i ddefnyddwyr y DU wrth iddynt deithio, mater sy'n effeithio ar ddefnyddwyr busnes yn benodol. Byddwn yn ymestyn ein hymchwil Dyfnaint[12] i fesur cryfder signal symudol ar y prif ffyrdd prifwythiennol yn y DU. Byddwn hefyd yn archwilio, gyda'r diwydiant rheilffordd yng nghyd-destun materion diwydiant ehangach, ffyrdd o wella darpariaeth symudol ar ei rwydwaith.

*Parhau i ymgysylltu â llywodraeth:* Lle mae datblygiadau yn y farchnad yn llai tebygol o fynd i'r afael â mannau gwan, byddwn yn parhau i gynghori'r llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi eu nodau polisi cyhoeddus. Er enghraifft, cyhoeddir ein hadroddiad seilwaith cyntaf dan y Ddeddf Economi Ddigidol yn ystod haf 2011 a bydd yn cynnwys canfyddiadau lefel uchel ynghylch darpariaeth symudol. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad hwn i ddatblygu argymhellion ymarferol lle ceir materion darpariaeth a allai fod yn fwy perthnasol i'r llywodraeth eu hystyried yn hytrach nag Ofcom.

*Mynd â rhyddhau sbectrwm rhagddo:* Yn amodol ar Gyfeiriad arfaethedig y llywodraeth, byddwn yn mynd â rhyddhau sbectrwm addas rhagddo ar gyfer gwasanaethau band eang symudol y genhedlaeth nesaf.

6.41 Bydd materion sy'n ymwneud â darpariaeth symudol yn dal yn bwysig i ddefnyddwyr a bydd yn dal i godi materion polisi cyhoeddus ehangach oherwydd y ffordd mae cymdeithas yn dibynnu ar ffonau symudol. Mae'n debyg y caiff canlyniadau gwaith darpariaeth symudol Ofcom eu gwireddu dros gyfnod hwy na 2011/12, gan y byddant yn dibynnu ar y camau a gymerir gan gwmnïau symudol, yn aml bydd hynny dim ond ar ôl buddsoddiad masnachol neu fuddsoddiad â chymhelliant cyhoeddus.

[12] Rydym yn cynnal astudiaeth beilot i fesur cryfder signal symudol mewn un rhanbarth wledig yn y DU – Dyfnaint - i fesur cryfder signal symudol 2G a 3G gan gwmnïau ar draws sampl o ffyrdd yn y rhanbarth. Dylai hyn ganiatáu i ni gymharu lefelau'r ddarpariaeth go iawn â'r rheini y mae'r cwmnïau'n eu honni yn ôl côd post.

### Sicrhau bod cyrff Datrys Anghydfodau Cymeradwy yn delio â chwynion defnyddwyr yn effeithiol

6.42 Mae gan bob defnyddiwr yr hawl i fynd â chwynion nad ydynt wedi cael eu datrys ynghylch eu darparwr at gynllun datrys anghydfod sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Ofcom. Mae Ofcom wrthi'n adolygu perfformiad y ddau gynllun y mae wedi'u cymeradwyo (Otelo a CISAS) i sicrhau bod eu gweithrediadau, eu strwythur a'u rheolau yn diwallu anghenion defnyddwyr.

### Hyrwyddo argaeledd offer hawdd ei ddefnyddio

6.43 Mae gan Ofcom ddyletswydd dan Adran 10 y Ddeddf Cyfathrebiadau i hyrwyddo datblygiad ac argaeledd offer hawdd ei ddefnyddio i ddefnyddwyr. Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol a adolygwyd yn ddiweddar hefyd yn rhoi dyletswydd ar Aelod-wladwriaethau i hybu argaeledd offer terfynell sy'n cynnig y gwasanaethau a'r swyddogaethau angenrheidiol er mwyn gallu mabwysiadu a gweithredu trefniadau penodol ar gyfer defnyddwyr anabl.

6.44 Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau wedi dweud y caiff y ddyletswydd hon ei chyflawni drwy ddyletswydd Ofcom dan Adran 10 (er bod hyn yn cyfeirio at ddefnyddio mewn ystyr ehangach na hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr anabl) a fforwm e-hygyrchedd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.  Byddwn yn parhau i ymwneud â'r Fforwm a mudiadau eraill i hyrwyddo offer hawdd ei ddefnyddio a hygyrch.

## Diben Strategol 4: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

### Sicrhau bod safonau rhaglenni effeithlon ac effeithiol yn cael eu gorfodi, yn enwedig yng nghyswllt amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed

6.45 Byddwn yn parhau i sicrhau bod y Cod Darlledu yn dal yn addas i'r diben yng nghyd-destun yr amgylchedd darlledu sy'n datblygu, gan ystyried y meini prawf statudol perthnasol gan gynnwys; yr angen i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn yn briodol; safbwyntiau ac anghenion dinasyddion a defnyddwyr; a'n dyletswydd i leihau'r beichiau rheoleiddiol ar ddarlledwyr.

6.46 Bydd Ofcom yn parhau i ddefnyddio'r Cod Darlledu drwy asesu a chanfod materion cydymffurfio ar draws gwasanaethau teledu a radio a, phan fo'n briodol, ymchwilio a chymryd camau gweithredu.

6.47 Yn benodol, byddwn yn sicrhau ffocws gorfodi cryf ar:

- Amddiffyn y gynulleidfa – yn enwedig yng nghyswllt amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed a chynulleidfaoedd eraill rhag niwed posibl.
- Amddiffyn defnyddwyr – sicrhau cydymffurfiaeth y drefn reoleiddiol newydd ar gyfer cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu a radio, ac adolygu'r farchnad lleoli cynnyrch sy'n datblygu ar y teledu.

### Cefnogi cyrff cyd-reoleiddio a hunanreoleiddio ee ASA, ATVOD ac UKCCIS

6.48 Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi gwaith y cyrff cyd-reoleiddio a hunanreoleiddio y mae'n gweithio gyda nhw. Bydd hyn yn cynnwys parhau ein perthynas â'r ASA yng

nghyswllt ei arolygiaeth dros ddarllediadau hysbysebu ac yn ei swyddogaeth newydd yn goruchwylio hysbysebu ar fideo ar wasanaethau ar-alw. Byddwn hefyd yn cefnogi ATVOD wrth iddo symud i'w flwyddyn gyntaf lawn o waith yn rheoleiddio cynnwys golygyddol ar wasanaethau fideo-ar-alw a chefnogi gwaith Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd.

### Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU (o bosibl gan gynnwys gwasanaethau teledu lleol newydd)

6.49 Bydd Ofcom yn parhau i drwyddedu gwasanaethau teledu a radio a ddaw dan awdurdodaeth y DU, i ddarparu ystod o wasanaethau i ddefnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y posibilrwydd o wahodd ceisiadau ar gyfer trydedd rownd o drwyddedu gorsafoedd radio cymunedol. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth i ddatblygu trefn trwyddedu newydd ar gyfer gwasanaethau teledu lleol.

### Ymgysylltu â Channel 4 ynghylch ei fframwaith newydd

6.50 Roedd Deddf Economi Ddigidol 2010 wedi sefydlu fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio Corfforaeth Channel 4, a elwir yn Ddatganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau. Mae hyn yn pwysleisio blaenoriaethau newydd ar gyfer Channel 4, gan gynnwys ffilmiau nodwedd, cynnwys ar gyfer plant hŷn ac oedolion ifanc, a datblygu talent gyda'r diwydiant cyfryngau.

6.51 Mae Ofcom yn gyfrifol am adolygu perfformiad Channel 4 dan y fframwaith newydd hwn, ac yn 2011/12 byddwn yn ymgysylltu â Channel 4 ynghylch cynnwys ei Ddatganiadau blynyddol. Caiff y cyntaf o'r rhain ei gyhoeddi ym mis Mai 2011.

## Diben Strategol 5: Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd

### Gweithredu cyfrifoldebau rheoleiddio newydd gan gynnwys y rheini sy'n deillio o'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig

6.52 Mae llawer o waith manwl Ofcom mewn rheoli telathrebu a sbectrwm yn cael ei wneud o fewn Fframwaith o reolau Undeb Ewropeaidd a osodwyd yn Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd 2002. Cafodd y Fframwaith ei adolygu yn 2009, a rhaid i'r newidiadau sy'n deillio ohono gael eu gweithredu yng nghyfraith y DU erbyn mis Mai 2011. Y llywodraeth sy'n bennaf gyfrifol am weithredu, ond bydd Ofcom yn cyfrannu at y broses hon mewn nifer o feysydd penodol.

6.53 Rhaid i Ofcom gwblhau ei adolygiad o nifer o Amodau Cyffredinol (rhwymedigaethau wedi'u cyfeirio at ddarparwyr Gwasanaethau a Rhwydweithiau Cyfathrebiadau Electronig) erbyn mis Mai 2011, er mwyn dod â nhw'n unol â'r Fframwaith diwygiedig. Ar ben hynny, ceir nifer o feysydd eraill lle mae'r Fframwaith diwygiedig yn rhoi pwerau newydd neu wahanol i Ofcom, megis mewn perthynas â gorfodi rhwymedigaethau rheoleiddio, rhoi cosbau ar gyfer torri rhwymedigaethau rheoleiddio a gweithdrefnau datrys anghydfodau. Mae Ofcom yn bwriadu naill ai ymgynghori neu gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar y meysydd hyn cyn dyddiadau cau gweithredu mis Mai. Pan fydd y Fframwaith diwygiedig yn cynnwys pwerau caniataol newydd, mae Ofcom yn bwriadu adolygu'r angen i ddefnyddio pwerau o'r fath, o fis Mai ymlaen.

## Ymgysylltu â datblygu polisïau Ewropeaidd a pholisïau rhyngwladol ehangach

6.54 Mae datblygiadau polisi rhyngwladol yn aml yn effeithio ar waith Ofcom. Rhaid i ni felly ddeall, a chyfrannu ac addasu yn ôl yr angen i'r polisïau a ddatblygir mewn cyd-destun Ewropeaidd a rhyngwladol. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ymgysylltu â datblygu fframweithiau rheoleiddio rhyngwladol y mae'r DU, Ofcom a'n rhanddeiliaid yn gweithredu o'u mewn, i sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gymesur ac yn gwasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU orau.

6.55 Un newid pwysig fu disodli'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd (ERG) gan y Corff o Reoleiddwyr Ewropeaidd mewn Cyfathrebiadau Electronig (BEREC), rhwydwaith cryfach gyda set ehangach o swyddogaethau a swyddogaeth ffurfiol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig. Bydd Ofcom yn neilltuo adnoddau i sicrhau llwyddiant BEREC a chyflawni ei raglen waith ar gyfer 2011. Mae meysydd pwysig yn cynnwys niwtraliaeth net, atebion rheoleiddio ar gyfer mynediad y genhedlaeth nesaf, hybu cystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn a thrawsrwydweithio ffonau symudol.

6.56 Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau Ewropeaidd, wrth i'r Comisiwn ddatblygu ei Agenda Digidol Ewropeaidd, a chyfrannu mewn meysydd lle gallwn ni ychwanegu gwerth. Mae ar Ofcom angen gallu cyfrannu'n adeiladol at gynigion deddfu sy'n effeithio arnom yn uniongyrchol ac ar ein rhanddeiliaid, megis diwygio sbectrwm (gan gynnwys y Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio), cyflwyno band eang, Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, y farchnad sengl ddigidol ar gyfer cynnwys, gorfodi hawlfraint ac amddiffyn defnyddwyr.

6.57 Bydd Ofcom hefyd yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr cyfathrebiadau mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, yn ddwyochrog a drwy rwydweithiau rheoleiddio megis BEREC, y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG), a'r Llwyfan Ewropeaidd o Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), i ddilyn, pan fo'n briodol, dull gweithredu cydlynol o ran rheoleiddio gwasanaethau cyfathrebiadau rhyngwladol.

6.58 Gall Ofcom elwa o brofiadau gwledydd eraill o fynd i'r afael â'r sialensiau rheoleiddio. Oherwydd hyn, mae'n bwysig rhannu enghreifftiau o'r arfer gorau o bedwar ban byd er mwyn cyfrannu at ddatblygu ein polisïau ein hunain. Byddwn yn cryfhau ein cysylltiadau gyda chymheiriaid rheoleiddio ar draws y byd ac yn parhau â'n gweithgareddau yn yr OECD a fforymau rhyngwladol perthnasol eraill, fel sy'n briodol, i sicrhau bod canlyniadau'n cyd-fynd ag arferion rheoleiddio'r DU. Byddwn hefyd yn ymgysylltu yn y CEPT a'r ITU, yn enwedig yng nghyswllt gweithgareddau sbectrwm cyn Cynhadledd Radio'r Byd a gynhelir nesaf yn Geneva ym mis Ionawr 2012

## Darparu cefnogaeth a chyngor technegol i lywodraeth ar weithredu polisïau

### *Darparu cyngor technegol ar gyfer ymarferoldeb teledu lleol dros sbectrwm rhyngddalennog*

6.59 Mae'r llywodraeth wedi pennu ei bwriad i sicrhau deg i 20 gorsaf deledu leol erbyn diwedd 2015. Mae Ofcom wedi darparu cyngor a chymorth technegol i'r llywodraeth wrth iddi ffurfio ei pholisi.

6.60 Byddwn yn parhau i helpu'r llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei pholisi. Ar ben hynny, yn amodol ar y model o deledu lleol a ddewisir, efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddechrau gweithredu polisi'r llywodraeth.

*Cefnogi datblygu'r llwyfan darlledu sain ddigidol (DAB)*

6.61 Mae'r llywodraeth, drwy'r Cynllun Gweithredu Radio Digidol, wedi gofyn i Ofcom chwarae swyddogaeth gefnogol dechnegol i ddatblygu polisi llywodraeth a gweithio at ddigideiddio radio darlledu. Yn benodol, gofynnwyd i ni adrodd yn flynyddol ar y farchnad radio digidol, ac arwain proses gynllunio ar gyfer lledaenu darpariaeth DAB i'r lefelau gofynnol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2011/2.

6.62 Rydym yn cynnig cyhoeddi'r ail *Adroddiad Cynnydd Digidol* blynyddol ar gyfer radio. Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad i'r llywodraeth a fydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer cynllunio trawsyrru technegol i gynyddu darpariaeth DAB. Efallai bydd gofyn i ni ysgwyddo swyddogaeth tymor hwy yn ymwneud â lledaenu DAB, os bydd llywodraeth a diwydiant yn mynd â hyn rhagddo.

*Cefnogi ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol y llywodraeth*

6.63 Rydym yn cefnogi'r llywodraeth gyda'i 'hymrwymiad gwasanaeth cyffredinol' i sicrhau bod band eang ar gael i bob cartref bron yn y DU erbyn 2015. Mae'r rhaglen hon yn cael ei harwain gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau[13]. Rydym yn darparu cefnogaeth ad-hoc mewn perthynas â maint a chwmpas y broblem, a rhannu ein gwybodaeth dechnegol.

## Cynrychioli'r gwledydd

6.64 Byddwn yn parhau i weithio at hybu bod mwy o wasanaethau cyfathrebiadau ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ymysg defnyddwyr ledled y DU. Drwy wneud hynny byddwn yn parhau i fonitro faint sy'n defnyddio'r gwasanaethau a faint ohonynt sydd ar gael yn y gwledydd, yn enwedig pan fydd hyn yn wahanol i gyfartaledd y DU.

6.65 Caiff hyn ei adlewyrchu yn nifer o'n blaenoriaethau a'n meysydd gwaith. Er enghraifft, mae'n debyg y bydd ein gwaith yng nghyswllt mannau gwan symudol yn debyg o gyfrannu at leihau gwahaniaethau o ran rhai gwasanaethau cyfathrebiadau sydd ar gael. Byddwn hefyd yn defnyddio ein profiad ar faterion penodol, ee gwersi o Gemau Olympaidd 2012 Llundain y bydd modd eu rhoi ar waith ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn yr Alban yn 2014.

## Cynrychioli defnyddwyr hŷn a defnyddwyr anabl

6.66 Fel rhan o ddyletswyddau Ofcom, mae'n rhaid i ni ystyried anghenion pobl anabl a phobl hŷn wrth i ni gyflawni ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cyfathrebiadau priodol ar gael.

6.67 Yn 2011/12, fel y nodwyd yn gynharach, bydd Ofcom yn cwblhau ei adolygiad o wasanaethau cyfnewid sy'n helpu defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd i wneud a derbyn galwadau ffôn. Bydd Ofcom hefyd yn parhau i hyrwyddo offer i ddefnyddwyr sy'n hawdd ei ddefnyddio ac yn hygyrch, a bydd yn cynnal rhaglen ymchwil fanwl i ymchwilio i raddfa llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU.

---

[13] http://interactive.bis.gov.uk/comment/bduk/

## Cefnogi Newid i'r Digidol ar gyfer teledu a radio

6.68 Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi'r newid i'r digidol ar gyfer teledu yn 2011/12. Mae gan Ofcom ddyletswyddau statudol i: ddiwygio trwyddedau darlledwyr; rheoli'r sbectrwm radio; a sicrhau bod gofynion darllediadau teledu statudol yn cael eu diwallu. Bydd Ofcom yn gweithio gyda Digital UK, llywodraeth y DU, darlledwyr, y Grŵp Teledu Digidol a rhanddeiliaid eraill.

6.69 Bydd Ofcom yn cwblhau ei waith yn arwain proses cynllunio darpariaeth i adrodd i'r llywodraeth ynghylch sut gellir cynyddu darpariaeth DAB i gyrraedd yr un lefel ag FM. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ystyriaethau'r llywodraeth o unrhyw newid i'r digidol ar gyfer radio yn y dyfodol. Bydd Ofcom hefyd yn parhau i gefnogi Cynllun Gweithredu Radio Digidol y llywodraeth, gan weithio gyda darlledwyr, Digital Radio UK ac Arqiva.

## Cynnal adolygiad seilwaith cyntaf, yn unol â Deddf Economi Ddigidol 2010

6.70 Mae Deddf Economi Ddigidol 2010 yn rhoi dyletswydd newydd i Ofcom adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol bob tair blynedd ar gyflwr seilwaith cyfathrebiadau'r DU. Caiff yr adroddiad cyntaf ei gyflwyno ym mis Awst 2011. Mae'r Ddeddf yn pennu nifer o feysydd adrodd, gan gynnwys defnyddio sbectrwm ar gyfer telegraffiaeth di-wifr, capasiti, argaeledd a darpariaeth rhwydweithiau a gwasanaethau, graddfa rhannu'r seilwaith a mynediad cyfanwerthu, ac asesiadau risg gweithredwyr a chynlluniau ymateb i argyfwng.

6.71 Rydym yn bwriadu adrodd ar y llais, y data a'r rhwydweithiau a'r gwasanaethau darlledu digidol a ddefnyddir amlaf ac sydd ar gael ehangaf, gan roi ffocws penodol ar ddarpariaeth symudol a band eang. Byddwn hefyd yn ceisio sôn am ddatblygiadau mewn technolegau pwysig sy'n dod i'r fei megis mynediad band eang symudol a band eang sefydlog y genhedlaeth nesaf. Bydd yr adroddiad yn defnyddio data Ofcom sydd eisoes ar gael, wedi'i ategu gan ddata newydd gan gwmnïau pan fydd hynny'n briodol.

## Adroddiad ar addasiadau newid hinsawdd yn unol â Deddf Newid Hinsawdd 2008

6.72 Mae Ofcom wedi cael ei gyfarwyddo i baratoi ei adroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar addasu i newid hinsawdd. Caiff ein hadroddiad ei gyflwyno erbyn mis Medi 2011. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch sut mae sefydliadau yn paratoi i addasu ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.

## Llythrennedd yn y cyfryngau

6.73 Byddwn yn parhau â'n rhaglen ymchwil i ymchwilio i raddfa llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU ac i adnabod materion llythrennedd yn y cyfryngau sy'n dod i'r fei. Byddwn hefyd yn ceisio hyrwyddo ein hymchwil yn eang i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau i osgoi dyblygu. Mae sefydliadau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn gofyn am ein data yn rheolaidd a chawn ein dyfynnu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at waith cyrff megis, Get Safe Online a Race Online 2012.

### Meysydd gwaith parhaus eraill yn cefnogi dyletswyddau ac amcanion Ofcom

6.74 Yn ogystal â'r meysydd gwaith uchod, mae gennym nifer o brosiectau eraill ar y gweill fel sy'n briodol:

Byddwn yn cynnal asesiadau effaith y BBC ar y farchnad yn ôl y gofyn, gan weithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth y BBC.

Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Masnachu Teg a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn deall y manteision posibl sydd ynghlwm wrth uno papurau newydd lleol, gan gynnal asesiadau cyfryngau lleol fel sy'n briodol.

6.75 Gan gefnogi ein rhaglen waith gyffredinol, byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu safbwynt clir ar:

Sut mae'r sectorau cyfathrebiadau'n debyg o ddatblygu dros amser.

Pa oblygiadau y bydd hyn yn ei olygu i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Pa oblygiadau y bydd y datblygiadau hyn yn ei olygu o ran rheoleiddio.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

6.76 Rydym yn chwilio am safbwyntiau gan ein holl randdeiliaid ynghylch ein blaenoriaethau arfaethedig a'n prif raglen waith ar gyfer 2011/12. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol, petai modd i chi ystyried y cwestiynau canlynol:

iv) Beth yw eich safbwyntiau chi ynghylch blaenoriaethau arfaethedig Ofcom ar gyfer 2011/12?

v) Beth eich safbwyntiau ynghylch meysydd gwaith arfaethedig Ofcom ar gyfer 2011/12?

6.77 Gweler Atodiad 1 i gael manylion ynghylch sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Adran 7

# Gwasanaethau i randdeiliaid

## Mae Ofcom yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill

7.1 Mae gennym ystod eang o gyfrifoldebau rydym yn eu cyflawni drwy gynnal prosiectau penodol neu drwy gynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr.

### Delio ag ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd

7.2 Mae tîm Gweithrediadau Canolog Ofcom yn delio ag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr am wasanaethau telathrebu, gwasanaethau teledu a radio a'r defnydd o'r sbectrwm radio. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu hymholiadau a'u cwynion drwy eu cyfeirio at gyngor defnyddiol a drwy gysylltu â darparwyr gwasanaeth.

7.3 Bydd pobl yn aml yn cwyno'n uniongyrchol wrthym am raglenni teledu a radio. Rydym yn ystyried cwynion am nifer o feysydd megis diogelu plant a phobl ifanc dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd a bod yn ddiduedd ac yn gywir mewn newyddion. Ond, nid ydym yn ystyried materion sy'n ymwneud â bod yn ddiduedd ac yn gywir yng nghyswllt rhaglenni'r BBC, gan mai cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y BBC yw hynny. Rydym hefyd yn delio â chwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.

7.4 Mae Tîm Cynghori Ofcom yn rhoi rhybudd cynnar ynghylch pryderon defnyddwyr. Mae meysydd newydd o bryder yn codi drwy'r amser ac mae'r rhain yn achosi cynnydd annisgwyl yn nifer y cwynion a gawn.

### Cadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth

7.5 Rydym yn monitro'r sbectrwm radio ac yn cymryd camau priodol i atal ymyrraeth niweidiol ar y sbectrwm. Mae'r mwy o alw am sbectrwm a defnyddio mwy arno yn arwain at fwy o risg o ymyrraeth. Mae Ofcom yn parhau i wella a moderneiddio ei adnoddau i atal hyn rhag digwydd a lliniaru pan fydd yn digwydd.

7.6 Mae ein tîm Peirianneg a Gorfodi Sbectrwm yn delio ag oddeutu 5,000 o achosion y flwyddyn, gan weithredu i:

amddiffyn cyfathrebu diogelu bywyd, gan gynnwys y gwasanaethau brys a'r gwasanaeth rheoli traffig awyr;

atal y sbectrwm radio rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon;

caniatáu defnydd cyfreithlon ar y sbectrwm drwy, er enghraifft, ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a

sicrhau y caiff offer nad yw'n cydymffurfio ei dynnu oddi ar y farchnad

## Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

7.7 Mae Ofcom yn rheoli mynediad at y sbectrwm radio drwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Lle bo angen, rydym yn aseinio amledd, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu’r defnydd o sbectrwm yn rhyngwladol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyhoeddi oddeutu 18,000 o drwyddedau sbectrwm, (heb gynnwys adnewyddu) sy'n berthnasol i ddefnyddwyr lloeren, dolenni sefydlog, radio busnesau preifat, amatur, morol a defnyddwyr eraill.

7.8 Roedd Canolfan Drwyddedu Ofcom (OLC) wedi ennill achrediad ISO 9001 ym mis Hydref 2010, safon system rheoli ansawdd rhyngwladol. Mae hyn yn llwyddiant ysgubol sy'n cydnabod ein hymrwymiad parhaus i godi ein safonau.

## Darparu gwasanaethau gwybodaeth

7.9 Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio'r sbectrwm radio. Mae hyn yn gyfraniad pwysig at gydlynu’r defnydd o sbectrwm yn effeithlon: Mae Ofcom hefyd yn hwyluso prynu a gwerthu trwyddedau sbectrwm gan randdeiliaid.

## Cyhoeddi adroddiadau ymchwil marchnad ac adroddiadau'r farchnad gyfathrebu

7.10 Rydym yn cyhoeddi ymchwil ar y sector cyfathrebiadau ac agweddau dinasyddion a defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys *Adroddiadau y Farchnad Gyfathrebu*; yr *Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus*; yr adroddiad blynyddol *Radio Digidol*; a'r adroddiadau blynyddol *Profiad y Defnyddiwr a Phrofiad y Defnyddiwr Busnes*.

7.11 Rydym hefyd yn cyhoeddi ymchwil i gefnogi prosiectau a chyhoeddiadau Ofcom. Mae ein hagwedd at ymchwil yn sicrhau ein bod yn gallu casglu tystiolaeth sy'n ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol i hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym hefyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Ystadegau drwy ddarparu ein hystadegau ymchwil a marchnad mewn ffordd amserol.

## Mabwysiadu arferion cynaliadwy

7.12 Mae Ofcom yn ceisio mabwysiadu arferion cynaliadwy ac, yn dilyn archwiliad carbon cychwynnol yn 2007, roeddem wedi rhoi targed i ni'n hunain i leihau 25% ar allyriadau carbon erbyn 2012/13. Rydym eisoes wedi cyflawni gostyngiad o 15% ac yn 2011/12 byddwn yn dal ati i weithio at y 10% olaf. Bydd hyn yn seiliedig ar gyflawni arbedion drwy ddefnyddio canolfannau data gwyrddach, adolygu ein hargraffu a hyrwyddo teithio cynaliadwy.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

7.13 Nid yn unig y mae Ofcom wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfrifol ond mae hefyd wedi ymrwymo i reoli ei effaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein dibenion cyfrifoldeb corfforaethol:

Trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg. Hybu cyfle cyfartal i bawb, nid yn unig yn Ofcom ond yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio hefyd.

Lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

Ymgysylltu, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

7.14 Rydym wedi dod yn ein blaenau yn dda o ran cyflawni'r amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Yn 2011/12 byddwn yn adeiladu ar y sylfaen gref hon, gan osod targedau ychwanegol pan fydd angen, er mwyn ystyried y Ddeddf Cydraddoldeb newydd.

7.15 Rydym yn parhau i redeg ein cynllun darllen poblogaidd ar gyfer gwirfoddolwyr Ofcom i gefnogi plant ysgol gynradd lleol, ac yn 2011/12 byddwn yn edrych ar y cyfle i ddefnyddio gwirfoddoli i gefnogi datblygiad cydweithwyr ymhellach ac effeithlonrwydd tîm.

## Adran 8

# Agwedd Ofcom at reoleiddio a mentrau symleiddio diweddar

## Rydym yn ceisio ysgafnhau'r baich rheoleiddiol ar randdeiliaid yn unol â dyletswyddau Ofcom

8.1 Wrth gyflawni ein dyletswyddau a diwallu ein dibenion strategol, rydym yn dilyn set bendant o egwyddorion rheoleiddiol. Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau bod ein gwaith yn mynd i'r afael â materion penodol yn effeithiol, yn amserol, yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Maent hefyd yn ein helpu i egluro ein hagwedd reoleiddiol a symleiddio a lleihau rheoleiddio, ar yr un pryd â chynyddu gwerth am arian pan fydd hynny'n bosibl.

8.2 Dyma ein hegwyddorion rheoleiddio:

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol clir ac a adolygir yn gyhoeddus, gydag amcanion sydd wedi cael eu datgan.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i'r farchnad cyfathrebu ac yn ceisio aros ar y blaen i ddealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

8.3 Mae ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd yn ceisio sicrhau nad ydym ond yn rheoleiddio lle mae hynny'n gwbl angenrheidiol. Gallai ymyrryd diangen o'r fath ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Ond, lle mae angen ymyrryd, byddwn yn gwneud hynny'n gyflym ac yn gadarn.

8.4 Mae Adran 6 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('Adran 6') yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i beidio â rhoi beichiau diangen na chynnal beichiau sydd wedi dod yn ddiangen. Mae Adran 6 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi datganiad bob 12 mis, gan

ddangos sut mae wedi cyflawni'r ddyletswydd hon. Rydym yn cyflawni'r gofyniad hwn drwy'r *Cynllun Symleiddio* sy'n cael ei gyflwyno yng nghyd-destun ein *Cynllun Blynyddol* drafft.

## Mae ein hagwedd at reoleiddio wedi'i dylunio i leihau beichiau

8.5 Mae proses cynllunio blynyddol Ofcom yn ceisio gosod ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol gan gofio ein hagwedd at reoleiddio.

8.6 Ar ben ein hegwyddorion rheoleiddio, ceir nifer o themâu sy'n bwysig i'n gwaith. Bydd y rhain yn dal yn bwysig drwy gydol 2011/12:

Ystyried sut mae ein gwaith a sut mae canlyniadau'n berthnasol i bob un o wledydd y DU. Caiff gwaith Ofcom ei ddylanwadu fwyfwy gan oblygiadau newidiadau a gwahaniaethau sefydliadol yn y gwledydd.

Mae glynu wrth becyn cymorth buddiannau defnyddwyr Ofcom yn ffordd o sicrhau bod Ofcom yn canfod ac yn rhoi sylw i fuddiannau defnyddwyr ar draws ei waith. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau y dylai pob tîm prosiect mewnol eu gofyn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ddefnyddwyr.

8.7 Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau'n datgan yn glir y dylem gyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Gwell Rheoleiddio. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i ymyriadau rheoleiddio fod ar sail tystiolaeth, yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch.

8.8 Mae Asesiadau o'r Effaith yn rhan allweddol o'n camau gweithredu rheoleiddio. Maent yn rhoi ffordd o adnabod y problemau y mae angen rhoi sylw iddynt, ystyried dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio (gan gynnwys peidio â rheoleiddio) ac wedyn dewis yr opsiwn sy'n rhoi'r mwyaf o fanteision posibl ac sy'n lleihau costau ymyrryd.

8.9 Mae adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn dweud ei bod yn rhaid i Ofcom gyflawni a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith pan ymddengys fod ein cynnig yn bwysig. Fodd bynnag, oherwydd bod Asesiadau o'r Effaith yn rhan o arfer rheoleiddio da, rydym yn cynnal Asesiadau o'r Effaith yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n penderfyniadau.

8.10 Mae rheoleiddio cymesur ac wedi'i dargedu wedi chwarae rhan allweddol o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y DU. Er bod treth beichiau ar gwmnïau wedi'u rheoleiddio yn rhan annatod o reoleiddio, rydym yn credu bod cyfiawnhad dros yr ymyriadau pan mae'r manteision cyffredinol a fydd yn deillio ohonynt yn drech na'r beichiau hyn.

8.11 Wrth ddadansoddi costau a manteision rheoleiddio, mae angen defnyddio egwyddor bod yn gymesur, sy'n golygu y bydd yn aml yn briodol i ni ganolbwyntio ar y costau a'r manteision pwysicaf a pheidio â threulio gormod o amser yn ystyried y rheini sy'n eithaf dibwys. Ar ben hynny, rhaid i faint o wybodaeth rydym yn gofyn amdani gan randdeiliaid er mwyn cyflawni'r dadansoddiad fod yn gymesur hefyd.

8.12 Wrth asesu dewisiadau ar gyfer ymyrryd, rydym yn ystyried ystod o atebion eraill, o ddim rheoleiddio o gwbl i hunan-reoleiddio gan y diwydiant ei hun (pan fydd y diwydiant yn gweinyddu ateb heb drosolwg na phwerau rheoleiddio stopio'n ôl), cyd-reoleiddio (lle mae gan y llywodraeth neu'r rheoleiddiwr bwerau stopio'n ôl a rhywfaint o drosolwg), hyd at ymyriad statudol llawn.

8.13 Drwy gydol 2009 a 2010 mae Ofcom wedi datblygu arweiniad rheoli prosiectau mewnol i sicrhau bod pob rheolwr prosiect yn deall ac yn ystyried asesiadau effaith, asesiadau effaith ar gydraddoldeb, risg, cyd-reoleiddio a hunan-reoleiddio, a diffinio metreg llwyddiant, a'i fod felly yn teilwra ei ddull neu ei ddull gweithredu er mwyn rhoi sylw i bob maes sy'n achosi pryder.

## Rydym yn adolygu rheoleiddio'n rheolaidd er mwyn archwilio a yw'n dal yn addas i'r diben ac yn tynnu beichiau pan nad oes cyfiawnhad drostynt fwyach

8.14 Pan fydd y rheoleiddio ar waith, rydym yn ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried newidiadau yn amodau'r farchnad, anghenion rhanddeiliaid a gofynion statudol ac rydym yn cynnal adolygiadau ffurfiol ar adegau penodol. Caiff ymyriadau pwysig eu gwerthuso hefyd yng nghyswllt y canlyniadau yr oeddent i fod i'w cyflawni'n wreiddiol. Mae adolygiadau a gwerthusiadau'n bwysig iawn i ni er mwyn pennu a oes cyfiawnhad dros y rheoliadau presennol a'r beichiau sydd ynghlwm wrthynt ac a ydynt yn angenrheidiol.

8.15 Ers ei greu mae Ofcom wedi bod ag agwedd strategol at reoleiddio, gan gyhoeddi adolygiadau sectoraidd amrywiol. Er bod y rhain yn gallu arwain at feichiau gweinyddol ar randdeiliaid drwy geisiadau am wybodaeth a'r broses ymgynghori, maent yn angenrheidiol er mwyn i ni gasglu sylfaen dystiolaeth i'w dadansoddi. Ar y llaw arall, mae agwedd strategol at reoleiddio'n lleihau'r tebygolrwydd y rhoddir sawl haen o reoleiddio heb eu cydlynu dros gyfnod, sy'n peri'r risg y rhoddir beichiau diangen ar randdeiliaid.

## Diweddariad am symleiddio ar 2010/11 ac astudiaethau achos ar gyfer 2011/12

8.16 Ac ystyried ein hadolygiad o wariant, rydym wedi cyflawni nifer o weithgareddau a fydd yn symleiddio ein gweithgareddau. Byddwn yn ymgynghori ynghylch rhai o'r cynigion hyn ac mae'r rhain wedi cael eu trafod yn adran 4. Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion ar gyfer mentrau pwysig eraill rydym wedi eu cyflawni yn ystod 2010 ac y byddwn yn parhau i'w cynnal drwy gydol 2011.

### Mentrau symleiddio parhaus o 2010/11 ymlaen

**Mae Ofcom yn defnyddio teclyn echdynnu data adrodd ariannol newydd**

Mae Ofcom wedi datblygu teclyn i'w alluogi i ymholi data cyfrifyddu rheoleiddio a ddarperir gan BT Plc yn well.

Caiff y teclyn hwn ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddi costau BT yn fanwl yn ariannol ac mae wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau rheoli costau a dadansoddi anghydfodau yn ariannol rhwng cwmnïau. Mae'n galluogi Ofcom i ymholi data cyfrifyddu rheoleiddiol BT yn uniongyrchol, gan arwain at lai o geisiadau gwybodaeth ad-hoc.

Mae dwy elfen i'r manteision. Arbedion uniongyrchol i Ofcom yw'r rhain a bu hefyd gostyngiad sylweddol yn y baich gweinyddol ar BT.

**Roedd Ofcom wedi symleiddio gwasanaethau trosglwyddo sengl BT**

Mae gwasanaethau trosglwyddo'n caniatáu i draffig gael ei anfon lle na all darparwyr cyfathrebiadau ryng-gysylltu eu rhwydweithiau'n uniongyrchol yn effeithlon. Prif fuddiolwyr rheoleiddio yn y farchnad hon yw darparwyr cyfathrebiadau, ond bydd manteision y rheoleiddio'n cael eu hadlewyrchu yn y pen draw mewn cynnyrch a fydd yn cael ei werthu i ddefnyddwyr.

Wrth adolygu'r farchnad hon, rydym wedi asesu a oes gan BT bŵer yn y farchnad, yn enwedig yng nghyswllt ei wasanaeth trosglwyddo sengl, ar sail lefel y rhyng-gysylltiad sydd ganddo yn y DU a'r graddau y gallai effeithio ar ddarparwyr cyfathrebiadau eraill drwy beidio â chynnig gwasanaethau ar y lefel hon o ryng-gysylltu.

Roedd y gwaith hwn yn deillio o'r adolygiad gorfodol o farchnadoedd band cul cyfanwerthu dan y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd. Cyhoeddodd Ofcom ei ddatganiad ym mis Chwefror 2010 a daethom i'r casgliad er bod BT yn parhau i gael cryn bŵer yn y farchnad hon, bod set llai o rwymedigaethau yn briodol i adlewyrchu maint y farchnad a natur y gwasanaethau a ddarperir gan BT.

Rhoddir hyblygrwydd prisio i BT felly ar yr amod nad yw ei brisio yn gwahaniaethu rhwng darparwyr cyfathrebiadau. Rydym o'r farn bod y dull gweithredu hwn yn sicrhau bod pob darparwr cyfathrebiadau yn parhau i gael ei drin yn deg wrth brynu'r gwasanaeth hwn gan BT ar yr un pryd â lleihau'r baich ar BT i ddiwallu ei holl rwymedigaethau rheoleiddio.

**Ofcom yn ail-lansio ei wefan**

Ym mis Gorffennaf 2010, roedd Ofcom wedi ailwampio ei wefan er mwyn sicrhau mynediad syml at wybodaeth a chyngor. Dyma oedd y newid mawr cyntaf i ddyluniad a phensaernïaeth y wefan ers creu Ofcom.

Roedd y dyluniad newydd yn seiliedig ar y pedwar prif grŵp sy'n defnyddio'r wefan: defnyddwyr, y rheini sy'n dal trwyddedau, rhanddeiliaid yn y diwydiant a'r cyfryngau/dadansoddwyr.

Un o brif amcanion yr ail-ddylunio oedd gwneud y wefan yn haws i ddefnyddwyr allu dod o hyd i wybodaeth berthnasol arni. Er enghraifft gall rhanddeiliaid yn awr gael gafael ar bob ymgynghoriad sydd ar agor drwy glicio unwaith ar yr hafan.

Mae'r wefan newydd wedi grwpio canllawiau a chyngor i ddefnyddwyr mewn adran benodol, sydd ar gael drwy glicio unwaith ar yr hafan. Nid oes angen clicio cymaint yn awr er mwyn cofrestru cwyn chwaith (ee ynghylch rhywbeth ar y teledu).

Ar ben hynny, mae'r rheini sy'n dal trwyddedau nawr yn gallu cael gwybodaeth a gwneud ceisiadau am drwyddedau cyfathrebu radio, darlledu radio neu ddarlledu teledu yn uniongyrchol o'r hafan.

At ei gilydd, mae hyn wedi gwella effeithlonrwydd ein gwasanaethau gwe. Dyma'r cam cyntaf mewn strategaeth eang i sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gallu dod o hyd i'r hyn maent yn chwilio amdano yn hawdd ar y we.

**Ofcom yn adolygu Rheolau Gwerthu Amser ar yr Awyr**

Ddiwedd mis Mawrth 2010, roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn cynnig dileu'r Rheolau Gwerthu Amser ar yr Awyr – dwy reol sy'n ymwneud â sut mae darlledwyr yn gwerthu amser ar yr awyr ar y teledu. Bwriad gwreiddiol y rheolau oedd sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol yng nghyswllt darlledu a gwasanaethau cysylltiedig.

Roedd y 'rheol dal yn ôl' yn golygu ei bod yn rhaid gwerthu'r holl amser ar yr awyr sydd ar gael ar ITV1, C4 a Five. Roedd y 'rheol gwerthu amodol' yn berthnasol i'r holl ddarlledwyr, gan eu gwahardd rhag gorfodi hysbysebwyr a phrynwyr cyfryngau, yr oedd arnynt eisiau prynu amser ar yr awyr ar un sianel, i brynu amser ar yr awyr ar sianeli ychwanegol. Cafodd y rheolau eu hadolygu ddiwethaf yn 2003 ac mae'n rhaid i Ofcom eu hadolygu o bryd i'w gilydd i wneud yn siŵr eu bod yn dal yn briodol ac yn addas i'r diben.

Roedd Ofcom wedi ystyried yr angen parhaus am y rheolau yng ngoleuni'r prif newidiadau yn y sector teledu yr oeddem yn credu a oedd wedi gwella cystadleuaeth o ran cyflenwi amser hysbysebu teledu ar yr awyr. Roeddem wedi nodi'r cynnydd mawr yn nifer y sianeli teledu ac yn y nifer a oedd yn gwylio teledu digidol, ynghyd â symudiad o wylio sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus tuag at sianeli digidol, a bod hynny wedi rhoi mwy o gyfleoedd i brynwyr gael hysbysebu ar sianeli nad ydynt yn rhai Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Ar ben hynny, roedd Ofcom wedi ystyried y cymhelliannau i ddarlledwyr ymddwyn mewn ffordd a oedd yn cael ei gwahardd gan y rheolau. Daeth Ofcom i'r casgliad nad oedd i bob golwg unrhyw wir gymhelliant i ddal amser ar yr awyr yn ôl. Mae Ofcom hefyd yn credu ei bod yn briodol trin gwerthu amodol a allai fod yn wrth-gystadleuol gan ddarlledwyr fesul achos.

Yn dilyn ei ymgynghoriad, ni chafodd Ofcom ddim tystiolaeth newydd i newid ei gasgliadau ei bod yn briodol dileu'r rheolau, felly cawsant eu diddymu ar 1 Medi 2010 – cyn y tymor bargeinio nesaf ar gyfer amser ar yr awyr ar y teledu.

Mae Ofcom yn credu, pan fo'n bosibl ac yn briodol, y dylai leihau a symleiddio rheoliadau cymhleth neu ddiangen. Gall codi rheoliadau diangen alluogi sectorau i ddatblygu ac, yn yr achos hwn, gall roi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr a hysbysebwyr i redeg eu busnesau – ac felly maes o law gall gael effeithiau cadarnhaol ar arloesi a buddsoddi a allai yn y pen draw ddarparu mwy o fanteision i ddefnyddwyr.

## Mentrau symleiddio a dadreoleiddio newydd 2011/12

**Byddwn yn sefydlu mentrau arfer gorau i gefnogi Gemau Olympaidd 2012 Llundain**

Yn yr un modd â'r asiantaethau llywodraeth sy'n ymwneud â Gemau 2012 Llundain, mae Ofcom yn gwneud paratoadau manwl i sicrhau Gemau diogel a llwyddiannus. Rydym yn gweithio i gyflawni hyn mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth da iawn am arian wrth gymharu â rheoleiddwyr mewn dinasoedd Olympaidd yn y gorffennol.

Ar gyfer Ofcom mae hyn yn cynnwys darparu trwyddedau sbectrwm arbennig at ddibenion Gemau penodol, profi a chomisiynu'r offer perthnasol a sicrhau bod unrhyw achos o ymyrraeth niweidiol yn cael sylw yn arbennig o gyflym. Mae hyn i gyd yn golygu tasgau sydd tu hwnt i'r hyn rydym yn ei wneud fel rheol.

Enghraifft o hyn yw ein bod yn gweithredu rhwydwaith o synwyryddion ar draws lleoliadau'r Gemau a fydd yn monitro'r sbectrwm ac yn gallu dod o hyd i union leoliad unrhyw ymyrraeth. Yn y gorffennol mae gemau wedi cyflogi oddeutu 300 o bobl i wneud y gwaith hwn eu hunain.

Effaith net hyn yw symleiddio ein prosesau'n sylweddol ac arbed llawer o gostau i randdeiliaid.

**Diwygio rheoleiddio lleolrwydd mewn radio masnachol**

Mae Ofcom yn ymwybodol bod y newidiadau sydd i'w gweld ar hyn o bryd yn y farchnad hysbysebu, ynghyd â mwy o gystadleuaeth ar gyfer sylw cynulleidfaoedd a datblygiadau technegol, yn golygu bod y diwydiant radio yn wynebu cryn sialensiau a'i bod yn rhaid iddo newid.

Yn y gorffennol roedd y fframwaith statudol yn mynnu bod gorsafoedd radio masnachol lleol yn darlledu cynnwys lleol a oedd wedi'i gynhyrchu yn eu hardaloedd trwyddedig. Roedd hyn yn golygu cyfyngiad gweithredol sylweddol ar gyfer gorsafoedd a oedd yn dymuno cynhyrchu rhaglenni rhwydwaith.

Fodd bynnag, Mae'r Ddeddf Economi Ddigidol yn caniatáu i Ofcom gymryd camau i ddadreoleiddio radio masnachol er mwyn gwella hyfywedd, ar yr un pryd â sicrhau bod gorsafoedd yn dal i ddarparu rhaglenni y mae defnyddwyr a dinasyddion yn eu gwerthfawrogi.

Daeth y newidiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2010. Oherwydd eu bod yn cael eu rhoi ar waith drwy newidiadau i fformatau gorsafoedd, drwy eu hysgrifennu yn eu trwyddedau darlledu, rhaid i weithredwyr gorsafoedd wneud cais am y newidiadau hyn i fanteisio ar y rheolau newydd. Dyma'r newidiadau mewn rheoliadau:

Gall gorsafoedd FM rhanbarthol ofyn am gael stopio rhaglenni lleol, gan ganiatáu iddynt rannu eu rhaglenni ar draws nifer o ranbarthau, os ydynt yn darlledu fersiwn cenedlaethol o'r gwasanaeth ar DAB. Bydd hyn yn meithrin cystadleuaeth a dewis mewn gwasanaethau ar draws y DU, yn annog mwy o amrywiaeth ar gyfer cynnwys a defnyddwyr, ac yn rhoi'r potensial ar gyfer buddsoddiad newydd mewn rhaglenni. Oherwydd anghenion penodol y gwledydd datganoledig, rhaid i orsafoedd rhanbarthol yng Nghymru a'r Alban barhau i ddarlledu rhaglenni lleol am nifer o oriau y dydd.

Caiff gorsafoedd lleol ofyn am gael cyd-leoli a rhannu rhaglenni mewn ardaloedd cymeradwy. I bob pwrpas, mae hyn yn caniatáu gorsafoedd mwy a mwy hyfyw. Bydd ar Ofcom angen bod yn fodlon y bydd y gorsafoedd dan sylw yn dal i ddarparu deunyddiau lleol sy'n berthnasol i'r gwrandawyr yn yr ardaloedd trwyddedig. Bydd ceisiadau ar gyfer cyd-leoli a rhannu rhaglenni ar draws ffiniau ardaloedd yn cael eu hystyried fesul achos.

Caiff gorsafoedd lleol FM gadw'r ymrwymiad presennol sef o leiaf deg awr o raglenni lleol bob dydd, neu ofyn am leihau hyn i o leiaf saith awr yn gyfnewid am ddarlledu

**Byddwn yn gweithredu menter e-wasanaethau newydd**

Yn gysylltiedig â gwella ein gwefan, rydym yn lansio menter e-wasanaethau sydd wedi'i hanelu at annog defnyddwyr a chwsmeriaid trwyddedu at strategaeth 'Gwe yn Gyntaf' neu 'hunanwasanaeth' drwy borth gwe Ofcom. Bydd hyn yn berthnasol i gwynion telathrebu, ymholiadau a cheisiadau am drwyddedau, adnewyddu, taliadau ac ymholiadau cyffredinol.

Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr a chwsmeriaid trwyddedu gael gafael ar Ofcom drwy roi gwell profiad i'r cwsmer ac ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael gennym yn effeithiol y tu hwnt i oriau arferol swyddfa.

Drwy'r porth trwyddedu a defnyddwyr newydd, rydym yn gobeithio lleihau oddeutu 50% ar faint o alwadau a geir yn ein canolfan alwadau, Tîm Cynghori Ofcom (OAT), a fydd yn rhyddhau pobl i ddelio ag achosion sy'n fwy cymhleth nad oes modd eu datrys dros y we ac i ddarparu gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr nad ydynt ar-lein eto. Yn yr un modd, rydym yn gobeithio ysgafnhau cyswllt cwsmeriaid trwyddedu ar gyfer cofrestru, talu a rheoli eu portffolio o drwyddedau.

Nod y gwaith hwn yw cynnig gwasanaeth gwell a mwy effeithlon i'n rhanddeiliaid ar gyfer gwasanaeth telathrebu a chynnyrch trwyddedu ar-lein.

## Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

A1.1 Mae Ofcom yn gofyn am farn a sylwadau ysgrifenedig am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 1 Mawrth 2011.

A1.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/draftap1112/, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein helpu drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (isod), i ddangos a oes unrhyw faterion i'w hystyried ai peidio o ran cyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A1.3 Yn achos ymatebion mwy i'r ymgynghoriad - yn enwedig y rheini sydd â siartiau, tablau neu ddata eraill i'w hategu - dylech eu hanfon drwy'r e-bost i ed.leighton@ofcom.org.uk gan atodi'ch ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen gyflwyno ymateb yr ymgynghoriad.

A1.4 Fel arall, ceir postio neu ffacsio ymatebion i'r cyfeiriad isod, ac enw'r ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.

Ed Leighton
Tŷ Riverside
2A Heol Bont Southwark
Llundain SE1 9HA

Ffacs: 020 7981 3706

A1.5 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ogystal â fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion os cyflwynir nhw drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.6 Byddai o gymorth pe gallech roi atebion uniongyrchol yn eich ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon, sydd wedi'u rhestru gyda'i gilydd ar ddiwedd adran 6. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro'r rhesymau dros eich barn a sut y byddai cynigion Ofcom yn effeithio arnoch chi.

## Rhagor o wybodaeth

A1.7 Os ydych yn dymuno trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch y dull priodol o ymateb, cysylltwch ag Ed Leighton ar 020 7981 3540

## Cyfrinachedd

A1.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld y farn a fynegwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriadau. Felly, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, sef **www.ofcom.org.uk**, cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid cadw'ch ymateb yn gyfrinachol, byddwch cystal â nodi pa ran o'ch ymateb y dylid ei chadw'n gyfrinachol, neu a ddylid cadw'r cwbl ohono'n

gyfrinachol, a nodi pam. Byddwch cystal â rhoi rhannau o'r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A1.9 Os bydd rhywun yn gofyn inni gadw rhan neu'r cwbl o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen inni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.10 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/disclaimer/

## Y camau nesaf

A1.11 Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar ddiwedd Mawrth neu ddechrau Ebrill 2011.

A1.12 Sylwch y gallwch gofrestru i gael Diweddariadau am ddim drwy'r post yn tynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. I gael mwy o fanylion, edrychwch ar: http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.13 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriadau. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.14 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth geisio barn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.15 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu â Vicki Nash, Cyfarwyddwr yr Alban, sef hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

A1.16 Vicki Nash
Ofcom
Tŷ Sutherland
149 Stryd St. Vincent
Glasgow G2 5NW

Ffôn: 0141 2297401
Ffacs: 0141 229 7433

E-bost vicki.nash@ofcom.org.uk

## Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A1.17 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

ii) Byddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd ag sy'n bosibl i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu arweiniad byr mewn iaith syml i gyrff llai neu i unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at 10 wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

Bydd rhywun o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a chyrff sydd â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. 'Hyrwyddwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu â hi i roi barn am y modd yr ydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

vii) Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld barn pobl eraill yn ystod yr ymgynghoriad. Fel arfer, byddem yn cyhoeddi'r holl ymatebion a gawsom ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn disgrifio sut yr oedd barn y rhai a fu'n gysylltiedig wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hynny.

## Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A1.18 Er mwyn gweithredu'n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddiol da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i ymgynghoriadau'n llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk.

A1.19 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un ohonynt gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny'n briodol.

A1.20 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i'r unigolion a'r cyrff hynny sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen gyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A1.21 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar y we sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lwytho copi electronig o'r ddalen hon i lawr mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/.

A1.22 Byddwch cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb y credwch y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb a nodwch eich rhesymau dros beidio â chyhoeddi'r rhan hon o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a'ch profiad personol. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â'u rhoi ar eich dalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

# Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu gorff/cyrff):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd ☐ Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Yr ymateb cyfan ☐ Corff ☐

Rhan o'r ymateb ☐ Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch corff gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb er hynny (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu gwybodaeth benodol neu'n rhoi modd i'ch adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych pe baem ond yn cyhoeddi'ch ymateb ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)